# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>21 MAI 2018<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>21 MAY 2018<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018.

**4** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 13 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYO I SWYDDOGION** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**6** **GOFYN AM GANIATAD I RECRIWTIO STAFF ASIANTAETH YCHWANEGOL YN Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 39 - 48)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**7** **CYLLIDEB REFENIW ALLDRO 2017/18** (Tudalennau 49 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO CYLLIDEB CRT - CHWARTER 4 2017/18** (Tudalennau 73 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 81 - 82)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **CYTUNDEB CWRS GOLFF LLANGEFNI** (Tudalennau 83 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS , Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Aled M. Jones, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, Shaun Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts. |

---

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Dew ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda.

Gwnaeth y Cynghorydd Llinos Medi Huws ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitemau 7 a 9 ar yr agenda.

Gwnaeth Dr Gwynne Jones, y Prif Weithredwr, ddatganiad o ddiddordeb rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda.

Gwnaeth y Cynghorydd Dylan Rees (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatganiad o ddiddordeb personol ond nid rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda.

Gwnaeth y Cynghorydd Nicola Roberts (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatganiad o ddiddordeb personol ond nid rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda.

2. **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.



DRAFT

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2018 i'w cymeradwyo.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2018.**

## 4. COFNODION – Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2018.**

## 5. COFNODION ER GWYBODAETH

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2018 i'r Pwyllgor Gwaith er gwybodaeth.

**Penderfynwyd nodi cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2018.**

## 6. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2018, er cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn –

**Eitemau sy'n Newydd i'r Flaen Raglen Waith**

Eitem 2 – Y Cyngor i fabwysiadu pwerau a dirprwyaeth i swyddogion wedi ei raglennu i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Mai, 2018
Eitem 7 – Cytundeb Clwb Golff Llangefni wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Mai, 2018
Eitem 10 – Cymeradwyo Achos Busnes ar gyferr Bid Twf Gogledd Cymru: Cytundeb Rhyng-Awdurdod 1 wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018
Eitem 11 - Bargen Twf Gogledd Cymru: Blaenoriaethu Prosiectau i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar ddyddiad i'w gadarnhau
Eitem 12 - Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018
Eitem 13 – Prosiect Ysgol Santes Dwynwen wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018
Eitem 14 - Strategaeth Ddigartrefedd wedi ei rhaglennu dros dro i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018
Eitem 16 – Ffoaduriaid Syria wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018
Eitem 20 – Moderneiddio Ysgolion : Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn) wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018

Eitem 21 - Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2018
Eitem 22 – Moderneiddio Ysgolion (Ardal Seiriol) i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith mewn cyfarfod arbennig sydd wedi ei raglennu ar gyfer 18 Gorffennaf, 2018
Eitem 35 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2, 2018/19 wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd, 2018
Eitem 36 – Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf Chwarter 2 wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd, 2018
Eitem 38 - Strategaeth Ddigartrefedd (Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn yr ymgynghoriad) - wedi ei rhaglennu i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd, 2018

Ymhellach, cyfeiriodd y Swyddog at yr eitemau a ganlyn a gafodd eu gohirio neu eu dileu oddi ar y Rhaglen Waith.

Eitem 3 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2017/18 i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin, 2018 yn hytrach nag ar 21 Mai, 2018 fel y nodwyd yn wreiddiol.
Eitem 6 – Craig y Don, Amlwch wedi ei dynnu oddi ar y Rhaglen Waith am y tro a bydd yn cael ei ail-raglennu i gael ei ystyried maes o law.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mai i Rhagfyr 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 7. CYLLIDEB REFENIW I MELIN LLYNNON

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith am gyllideb o £42,170 i ariannu'r gost o redeg Melin Llynnon fel atyniad i ymwelwyr yn 2018.

*Ar ôl datgan diddordeb rhagfarnus yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar yr eitem hon. Y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-gadeirydd, oedd yn y gadair ar gyfer yr eitem hon.*

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod trosglwyddo Melin Llynnon i drydydd parti wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser a bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno marchnata'r Felin unwaith eto yn unol â'r Polisi Gwaredu Asedau cyfredol. Tra bydd y broses hon yn cael ei chynnal, bydd y Felin yn parhau i fod ar agor fel atyniad i ymwelwyr yn ystod tymor 2018 a bydd y Cyngor yn gyfrifol am gostau staffio a rhedeg y safle am flwyddyn arall neu hyd nes bydd y Felin wedi cael ei throsglwyddo i gorff arall. Fodd bynnag, fel rhan o'r arbedion refeniw ar gyfer 2017/18, cafodd cyllideb refeniw Melin Llynnon ei chynnwys fel rhan o'r pecyn arbedion ac fe'i tynnwyd o'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y Cyngor. O ganlyniad, nid oes cyllideb ar gael i gwrdd â chostau rhedeg y Felin yn 2018/19. Mae'r tabl yn yr adroddiad yn amlinellu'r gyllideb ar gyfer y Felin ac mae'n seiliedig ar Felinydd yn gweithio am ddeuddydd yr wythnos gyda'r sawl sy'n rhedeg y Caffi'n cyfrannu £2,500 tuag at gost cyflogi Melinydd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod angen cyllideb o £42,170 i redeg y Felin fel atyniad i ymwelwyr yn ystod y tymor ymwelwyr hwn ac y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r gyllideb. Byddai'r gyllideb yn cael ei hariannu o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

Er bod y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd Melin Llynnon fel adnodd ac atyniad i ymwelwyr, nodwyd hefyd y dylid edrych ar y cynnig uchod i ariannu'r Felin fel



DRAFT

trefniant dros dro o dan amgylchiadau penodol er mwyn caniatáu i'r Felin aros ar agor yn ystod tymor ymwelwyr 2018; pwysleisiwyd bod rhaid cael datrysiad pendant o ran dyfodol tymor hir y Felin. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod trafodaethau i'r perwyl hynny'n parhau a bod cynlluniau i ddod i benderfyniad ar y mater.

**Penderfynwyd cymeradwyo cyllideb o £42,170 i gyllido costau gweithredu Melin Llynnon fel atyniad twristiaid yn 2018. Bydd y gyllideb yn cael ei hariannu o Falansau Cyffredinol y Cyngor.**

## 8. CYNLLUN LLESIANT – BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn ymgorffori Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn fel y'i cymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cadeirydd fod y Cynllun Llesiant yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwneud gwahaniaeth i fywydau preswylwyr drwy gydweithio i gyflenwi'r amcanion llesiant cytunedig ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru yn ei chyfanrwydd. Tynnodd sylw at y ffaith fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio wedi craffu ar y Cynllun yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2018. Mae'r Pwyllgor yn ymgynghorai statudol a dyma'r pwyllgor dynodedig ar gyfer craffu ar fusnes y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae ymateb ffurfiol y Pwyllgor Sgriwtini, ar ffurf llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini at Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn–**

- **Ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.**
- **Ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Llesiant a'i fod yn cael ei ymgorffori fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**
- **Mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**
- **Y dylid diwygio adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant fel swyddogaeth na fedr ond y Cyngor llawn ei harfer; a dileu'r cyfeiriad at y Cynllun Integredig Sengl.**
- **Y dylid diwygio adran 2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn penodi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**
- **Ei fod yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Buses y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu bod y materion a restrir uchod wedi cael eu cymeradwyo.**
- **Ei fod yn awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw welliannau yn y dyfodol, fel a pan fyddant yn codi, i gyfansoddiad y Cyngor (a) pan fyddant yn ymwneud â, neu (b) yn codi o ganlyniad i'r materion uchod, yn amodol ar ymgynghoriad gydag arweinwyr grwpiau a dim gwrthwynebiadau yn codi.**

## 9. MODERNEIDDIO YSGOLION YN YNYS MÔN – ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL YN ARDAL LLANGEFNI: YSGOL CORN HIR, YSGOL HENBLAS, YSGOL BODFFORDD

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn ymgorffori'r adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni (Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas).

*Ar ôl datgan diddordeb rhagfarnus yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Richard Dew a'r Prif Weithredwr y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar yr eitem hon. Roedd y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Is-gadeirydd, yn y Gadair ar gyfer yr eitem hon.*

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, i adrodd ar drafodaethau'r Pwyllgor Sgriwtini ar y mater hwn yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2018 a'r argymhellion yn deillio o hynny.

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones unwaith eto i bawb a oedd wedi cyfrannu at drafodaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y pwnc hwn yn y cyfarfod ar 23 Ebrill ac yn arbennig cynrychiolwyr y tair ysgol dan sylw a oedd oll wedi cyflwyno achos cadarn ar ran eu hysgolion. Roedd cynrychiolwyr Ysgol Bodffordd wedi cyfleu darlun o ysgol wledig brysur oedd yn weithgar yn ei chymuned ac sydd â Chylch Meithrin uchel ei barch. Un o'r pryderon o ran yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini oedd y diffyg tystiolaeth i brofi mai'r Cyngor sydd berchen ar dir ac adeilad cymunedol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Bodffordd, rhywbeth y codwyd amheuon ei gylch yn ystod y cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor yn awyddus i gael eglurhad ar hyn cyn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith. O ran Ysgol Corn Hir, clywodd y Pwyllgor Sgriwtini mai'r prif fater oedd diffyg lle ar gyfer y plant yn yr ysgol. Roedd cynrychiolwyr Ysgol Henblas wedi disgrifio'r camau breision y mae'r ysgol yn eu cymryd erbyn hyn i wella safonau a pherfformiad o dan arweiniad Pennaeth newydd, brwdfrydig. Dywedodd y Cynghorydd Jones mai'r darlun sy'n datblygu mewn perthynas ag Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yw eu bod yn ddwy ysgol ganolig eu maint (neu'n ysgolion y gellid eu hystyried yn rhai mawr hyd yn oed yn ôl safonau Ynys Môn) sy'n cael eu targedu oherwydd yr angen i ddatrys problem diffyg llefydd addysg gynradd yn Llangefni. Er y derbynnir fod rhaid datrys y sefyllfa yn Ysgol Corn Hir, y pryder oedd yn cael ei gyfleu i'r Pwyllgor Sgriwtini oedd na ddylid gwneud hynny ar draul Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas. Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled Morris Jones at sylwadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru yn y sesiwn llawn ar 25 Ebrill pan gafodd ei holi gan Aelod Cynulliad Ynys Môn ynglŷn â'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn Ynys Môn - ac yn benodol ynglŷn â'r diffyg eglurder oherwydd disgwyliad Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain fod darparu cyllid ar gyfer ysgolion newydd yn dibynnu ar greu arbedion drwy uno/cau ysgolion bach ar un llaw, a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion drafft newydd ar y llaw arall. Yn ei hymateb roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud nad oes rhaid cau ysgol er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer ysgol newydd - gellir defnyddio'r arian i adnewyddu/ailfodelu ysgolion sy'n bodoli'n barod yn ogystal. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ystyried y ddau opsiwn a gyflwynwyd gan y Swyddogion yn ofalus iawn ond ei fod o'r farn fod y broses yn cael ei gweithredu ar ormod o frys - ni chynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ac anstatudol er gwaetha'r ffaith ei bod yn arfer dda i wneud hynny ac roedd methu â gwneud hynny yn tynnu'n groes i'r weithdrefn a fabwysiadwyd ar gyfer cynigion blaenorol i foderneiddio ysgolion mewn rhannau eraill o Ynys Môn; mae'r methiant hwn yn cadarnhau amheuon ymysg y gymuned am y broses ei hun. O ganlyniad, roedd y Pwyllgor yn argymell oedi'r rhaglen foderneiddio yn y rhan hon o Langefni nes bydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig terfynol wedi'i gyhoeddi, fod Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn aros ar agor yn sgil y cynlluniau i adeiladu tai newydd yn ardal Llangefni a'r llefydd ysgol ychwanegol fydd

o bosib eu hangen oherwydd hynny, a bod y mater ynghylch perchnogaeth tir a'r adeilad cymunedol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Bodffordd yn cael ei gadarnhau cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r ysgol.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion yn golygu cloriannu dyfodol ysgolion a'r effaith fydd hynny'n ei gael ar blant, rhieni, athrawon, llywodraethwyr ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Mae'n gallu bod yn fater cynhennus a dyma un o elfennau mwyaf heriol busnes y Cyngor. Fel Aelod Portffolio, roedd yn cydnabod hynny ac roedd yn deall pryderon rhieni a'r holl randdeiliaid eraill. Ar y llaw arall, yr hyn sy'n cael ei drafod yw dyfodol ysgolion dros y 50 mlynedd nesaf o bosib; gwasanaeth ysgolion sy'n sigo dan bwysau toriadau ariannol Llywodraeth San Steffan a Chaerdydd; costau trwsio a chynnal a chadw, gofynion y Cwricwlwm; arweinyddiaeth ysgolion a nifer o agweddau eraill. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth o ddifrif i wneud y system a gwasanaeth ysgolion yn fwy effeithiol sy'n golygu creu amgylchedd lle gall plant ac athrawon lwyddo, yn ogystal â'i wneud yn fwy effeithlon sy'n golygu sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod pob ysgol yn derbyn cyfran deg o'r gyllideb. O dan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a ddaeth i rym yn 2013, mae 10 o ysgolion bach wedi cau ar Ynys Môn, adeiladwyd dwy ysgol newydd ac mae'r gwaith o adeiladu'r drydedd ysgol wedi dechrau. Rhoddodd yr Aelod Portffolio grynodeb o hanes y broses foderneiddio hyd yn hyn yn y rhan hon o Langefni gan ddechrau gyda phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ôl yn 2016 i gynnal ymgynghoriad anstatudol anffurfiol ar ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni a ddigwyddodd ddiwedd 2016 ac a oedd yn cynnwys Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas ac ysgolion eraill. Yn dilyn adroddiad ar y mater, ym mis Rhagfyr 2016 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad statudol ar Opsiwn A ac Opsiwn B a chynhaliwyd yr ymgynghoriad ddechrau 2017. Yn dilyn oedi oherwydd Etholiadau Llywodraeth Leol, ym mis Gorffennaf 2017 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i symud ymlaen ag Opsiwn B, sef ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Ym mis Rhagfyr 2017 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i oedi ac adolygu'r broses ac, oherwydd pwysau amser a gofynion cam Band A Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, penderfynwyd cynnal ymgynghoriad statudol a chyflwynir yr adroddiad ar y canlyniad i'r cyfarfod heddiw. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y gyrwyr newid sy'n sylfaen i'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Ymhellach, nododd fod gan yr Aelodau Etholedig gyfrifoldeb am eu cymunedau, ond fod disgwyl hefyd iddynt ddarparu cyfeiriad strategol drwy roi arweiniad cadarn ac eglur.

Amlygodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) brif feysydd adroddiad y Swyddog fel y'i cyflwynwyd i'r cyfarfod ac yn benodol adrannau 4 i 9 yr adroddiad sy'n amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd yn y tair ysgol, gan y tair ysgol yn unigol, gan ddisgyblion yn y tair ysgol a rhanddeiliaid eraill. Ynghlwm i'r adroddiad mae atodiadau yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y tair ysgol a chost y pen ym mhob un o'r tair ysgol. Cyfeiriodd at nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac amlinellodd ymateb yr Awdurdod i'r prif bwyntiau a godwyd gan yr ymatebion hynny (adran 10 yr adroddiad). Mae safonau yn Ysgol Henblas ac Ysgol Bodffordd wedi bod yn isel am beth amser, ac mae'r ddwy ysgol wedi derbyn nifer sylweddol o ddyddiau o gefnogaeth ysgol gyda chyflymder y gwelliant yn fwy araf na'r disgwyl. Fodd bynnag, gyda phenodiad Pennaeth newydd dros dro gwelwyd cynnydd yn Ysgol Henblas ers Medi, 2017. Mae maint y ddwy ysgol yn golygu fod dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgolion sy'n golygu fod addysgu yn fwy o her. Mae arweinyddiaeth ac ansawdd yr arweinyddiaeth yn broblem hefyd oherwydd maint yr ysgolion. Mae cost y disgybl yn uchel yn y ddwy ysgol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru; yn ogystal mae ôl-groniad cynnal a chadw yn y ddwy ysgol (£112,000 yn Ysgol Henblas a £209,000 yn Ysgol Bodffordd). Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r pwynt a wnaed gan rai o'r ymatebwyr fod defnydd o'r Iaith Gymraeg yn well yn Ysgol Henblas nag mewn ysgolion eraill na bod y gymuned yn gwneud mwy o ddefnydd o'r ysgol nag mewn nifer o ysgolion eraill.

Mae defnydd o'r Gymraeg yn un o gryfderau pob un o'r tair ysgol. Fodd bynnag, ym Modfforddd, cydnebir bod defnydd cymunedol sylweddol yn cael ei wneud o'r ysgol a bod angen canfod ateb i'r mater hwn petai'r ysgol yn cau. Ysgol Corn Hir yw'r fwyaf o'r tair a bydd rhaid i'r opsiwn terfynol adlewyrchu hynny. Mae diffyg capasiti yn broblem yn yr ysgol ac nid oes lle i ehangu ar y safle. Mae ôl-groniad cynnal a chadw o £239,500 yn yr ysgol. Cost y pen yn Ysgol Corn Hir yw'r isaf o'r tair ysgol; mae safonau yn yr ysgol yn dda yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg.

Ychwanegodd y Swyddog fod nifer o'r ymatebion cyffredinol a dderbyniwyd yn awgrymu fod maint ysgol yn cael effaith ar ansawdd y Gymraeg a bod ysgolion mwy yn llai llwyddiannus o ran creu ymdeimlad o deulu. Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r un o'r ddau honiad. Yn ogystal, nid yw cau ysgolion o reidrwydd yn golygu fod cymunedau'n dirywio. Er ei bod yn her, mae enghreifftiau o gymunedau'n parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae ysgolion wedi cau.

Mewn perthynas â'r ystyriaethau ariannol, er na fyddai cynnal a chadw'r tair ysgol yn creu costau cyfalaf sylweddol, byddai'n rhaid rhoi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw o £406,000 yn y tair ysgol. Mae'n debyg y bydd costau ychwanegol yn codi wrth i'r adeiladau gyrraedd diwedd eu hoes. Er bod adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad sylweddol sy'n rhaid ei ystyried yn ofalus, mae'n arwain at arbedion maint uwch a chostau refeniw is. Byddai cau Ysgol Henblas yn cynyddu arbedion maint yr ysgol newydd arfaethedig ac yn creu arbedion refeniw uwch.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr Dafydd Roberts ac Eric Jones o blaid Ysgol Henblas. Fe gyfeirion nhw at yr ymdrechion sylweddol a wnaethpwyd i godi safonau yn yr ysgol sy'n talu ar eu canfed erbyn hyn. Roeddent yn hyderus y byddai'r ysgol yn parhau i wella o dan arweiniad ac arweinyddiaeth Pennaeth newydd ymroddedig a brwdfrydig. Nododd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod llai na 10% o lefydd gweigion yn Ysgol Henblas a bod cost y pen yn gostwng hefyd. Mae nifer o agweddau yn newid o blaid yr ysgol. Gydag Ysgol Bodorgan yn cau, mae'n bosib y bydd disgyblion o'r ysgol honno'n penderfynu symud i Ysgol Henblas. Byddai cau Ysgol Henblas yn gadael ardal fawr heb unrhyw ddarpariaeth addysg. Disgrifiodd y Cynghorydd Eric Jones Ysgol Henblas fel ysgol fodern, boblogaidd, hapus a Chymreig ac roedd hynny'n golygu fod y bygythiad i'w dyfodol yn peri mwy o syndod a siom. Rhestrodd lwyddiannau diweddar yr ysgol mewn pêl-rwyd a phêl-droed 5 bob ochr, cyrraedd y brig drwy Gymru yn yr ymgyrch *Bike It* a bydd parti canu'r ysgol yn cynrychioli Ynys Môn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fis nesaf. Dywedodd fod ysgol wrth galon pob pentref oherwydd ei bod yn creu ymdeimlad o gymuned ac yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnal y gymuned. Mae tynnu'r galon o'r gymuned yn golygu y bydd y gymuned yn marw - oherwydd hynny anogodd y Pwyllgor Gwaith i gadw hynny mewn cof wrth ddod i benderfyniad.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees, Aelod Lleol a Chadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd ar ran Ysgol Bodffordd. Er ei fod yn cefnogi Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor dywedodd ei fod yn credu'n gryf y dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Roedd o'r farn fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn annheg iawn ar Ysgol Bodffordd a bod yr asesiad o safonau'r ysgol yn rhy llym ac nad oeddent yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa a dywedodd fod hynny wedi siomi a gwylltio corff llywodraethu'r ysgol ac wedi cael effaith ar forâl staff. Mae llawer o bwyslais yn yr adroddiad ar adroddiad arolygiad Estyn yn 2015 - ail-ymwelodd Estyn â'r ysgol yn 2016 a chadarnhau fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da. Yn ogystal, canmolwyd y cynnydd a wnaethpwyd gan yr ysgol gan Banel Adolygu Cynnydd Ysgolion Pwyllgor Sgriwtini'r Cyngor. Er bod canlyniadau rhai meysydd yn y chwarteli isaf, mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn cydnabod fod rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau oherwydd gall niferoedd disgyblion fod yn isel ac mae natur y cohort ac amgylchiadau disgyblion unigol yn gallu cael effaith sylweddol. Mae'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol yn cael ei gydnabod fel cryfder. O ran arweinyddiaeth ac amser digyswllt annigonol ar gyfer Penaethiaid, mae hwn yn fater sy'n effeithio ysgolion mawr yn

ogystal ag ysgolion llai gan fod toriadau ariannol yn golygu fod rhaid i benaethiaid dreulio mwy o amser yn yr ystafell ddosbarth beth bynnag yw maint yr ysgol gan nad oes digon o arian ar gael i gyflogi athrawon dosbarth. Er nad yw llefydd gweigion (un o brif yrwyr y rhaglen foderneiddio) yn broblem yn Ysgol Bodffordd mae'r ysgol, ynghyd ag Ysgol Henblas, wedi eu tynnu i mewn i'r broses yn sgil yr angen i ganfod ateb i'r diffyg llefydd yn y ddwy ysgol gynradd yn Llangefni. Mae'r adroddiad yn datgan ei bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru'n cyfrannu arian tuag at ysgol newydd oni bai fod ysgolion yn cael eu huno er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn seiliedig ar orfod cau ysgolion. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees at y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion drafft diwygiedig a chyfeiriodd at y Côd presennol sydd yn nodi ym mharagraff 1.7 fod rhaid i'r sawl sy'n cyflwyno cynigion ddangos fod effaith cau ysgol ar y gymuned wedi cael ei asesu drwy gynhyrchu Asesiad Effaith Cymunedol. Nid yw'r Asesiad Effaith Cymunedol a gynhyrchwyd mewn perthynas ag Ysgol Bodffordd (er na chafodd ei gynnwys gyda phapurau'r Pwyllgor) yn ddigonol - nid oes dim ynddo i ddangos fod yr Awdurdod wedi gwneud cynlluniau i liniaru effeithiau negyddol cau Ysgol Bodffordd ar y gymuned nac sut y bydd y bwriad i geisio diogelu'r ddarpariaeth gymunedol yn cael ei wireddu. Yn ogystal, nid oes gwybodaeth am ddyfodol y Cylch Meithrin llwyddiannus iawn sy'n golygu nad oes gwerth gwirioneddol i'r Asesiad heblaw am dicio bocsys. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi derbyn papur a baratowyd gan Mr Gareth Parry, un o Lywodraethwyr Ysgol Bodffordd, yn dangos sut mae'r cynigion yn groes i un o brif amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef creu cymunedau hyfyw, cadarn a llwyddiannus. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees fod yr ymgyrch i ddiogelu dyfodol Ysgol Bodffordd yn frwydr i ddiogelu cymuned gyfan oherwydd byddai cau'r ysgol yn dinistrio'r gymuned. Anogodd y Pwyllgor Gwaith i gadw hynny mewn cof ac i beidio cau'r ysgol, yn arbennig gan nad oes rhaid i hynny ddigwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts, oedd yn siarad fel Aelod Lleol, fod rhaid rhoi sylw i'r ystadegau ar gyfer yr ardal hon ac i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn sgil y broses ymgynghori. Mae'n rhaid deall nad yw cynnal y sefyllfa bresennol yn bosib, nid yn unig ar sail costau ond hefyd ar sail safonau addysgol. Mae rhieni'n dewis anfon eu plant allan o'r dalgylch ac mae'r ystadegau'n cadarnhau hynny gan eu bod yn dangos fod canran uchel o ddisgyblion yn Ysgol Henblas ac Ysgol Bodffordd yn dod o ardaloedd tu allan i'r dalgylch. Mae costau rhedeg Ysgol Henblas ac Ysgol Bodffordd yn uchel; Mae Ysgol Bodffordd yn gwario dwywaith gymaint ag Ysgol Corn Hir ar danwydd. Yn ogystal mae cost y disgybl lawer uwch yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas nac yn Ysgol Corn Hir ac yn llawer uwch na'r gwariant cyfartalog y pen yn Ynys Môn ac yng Nghymru, fel y tystia'r adroddiad. Gofynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts a yw'n deg fod gwariant ar addysg cymaint uwch mewn ysgolion fel hyn tra bod y safonau yn is o gymharu ag ysgolion eraill. Mae ysgolion mwy, sy'n fwy hyfyw a chynaliadwy, mewn perygl o gael eu mygu'n ariannol ar draul cadw ysgolion drud ar agor. Mae prinder Penaethiaid hefyd yn broblem, er gwaetha'r ffaith fod yr Awdurdod yn ymdrechu i annog ac i hyfforddi unigolion i ymgymryd â'r rôl. Mae mwy o bwysau ar staff addysgu mewn ysgolion bach ac mae'n rhaid i'r Pennaeth addysgu yn y dosbarth am gyfran uwch o'r amser ac mae athrawon yn gorfod ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil addysgu dosbarthiadau oedran cymysg. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes raid cau ysgolion er mwyn bod yn gymwys i dderbyn arian rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, dywedodd hefyd fod ystyriaeth yn cael ei roi i'r "gwerth tu ôl i bob cais". Mae'n rhaid cael achos busnes cynaliadwy i gefnogi rhaglen foderneiddio'r Awdurdod ac er mwyn gweithredu hyn yn iawn mae'n rhaid uno ysgolion. Nid oes ffafriaeth o blaid nac yn erbyn ysgolion trefol nac ysgolion gwledig ac mae'r broses ymgynghori sydd wedi digwydd, ac sy'n parhau i ddigwydd, yn dangos hynny'n glir. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod a diogelu defnydd y gymuned o Ysgol Bodffordd. Gofynnodd i'r Pwyllgor Gwaith edrych ar Langefni o safbwynt ehangach ac i sicrhau nad yw plant yr ardal yn derbyn addysg israddol ar draul oedolion sy'n coleddu syniadau plwyfol am eu hardaloedd.



DRAFFT

Wrth ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a chyflwyniadau'r Aelodau Lleol, gwnaeth y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau a ganlyn:

- Nododd a derbyniodd y Pwyllgor Gwaith fod hon yn sefyllfa anodd iawn i'r cymunedau dan sylw a'i fod yn naturiol wedi esgor ar deimladau cryfion.
- Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gytûn ynglŷn â chefnogi'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn fel cyfrwng i gyflawni dyheadau'r Awdurdod o ran darpariaeth addysg gynradd ar yr Ynys h.y. creu'r amgylchedd ddysgu ac addysgu orau bosib ar gyfer disgyblion ac athrawon ysgolion cynradd Ynys Môn; i wneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac i hybu safonau uchel mewn addysg.
- Yn yr ardaloedd hynny yn Ynys Môn lle cafodd ysgolion newydd eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, nododd y Pwyllgor Gwaith fod y gwrthwynebiad a'r amheuon gwreiddiol ymysg y cymunedau hynny wedi lleihau wrth i fanteision ysgol newydd, fodern ddod i'r amlwg.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith nad oes rhaid i gau ysgolion gwledig o reidrwydd arwain at ddirywiad mewn cymunedau e.e. cyfeiriwyd at gau Ysgol Llanddeusant fel esiampl lle na welwyd effaith negyddol ar y gymuned.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod costau uwch yn gysylltiedig ag ysgolion llai, o'r gost o addysgu pob disgybl i gostau rhedeg a chynnal a chadw adeiladau sydd fel arfer yn hynach ac yn aneffeithlon. Mae costau gorbenion yn ffynhonnell gwariant sylweddol yn y sector ysgolion ac yn arian sydd ddim yn cael ei wario ar ddysgu ac addysgu. Mae lleihau'r gorbenion drwy leihau nifer yr adeiladau ysgol yn creu arbedion y byddai'n rhaid eu canfod o gyllidebau eraill fel arall, yn cynnwys cyllidebau addysgu.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod newid yn creu ofn a chyfleoedd. Mae'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ymwneud â newid patrwm y ddarpariaeth addysg gynradd fel ag y mae ar hyn o bryd ac sydd wedi hen sefydlu er mwyn creu'r amgylchedd dysgu ac addysgu gorau posib lle gall plant a staff fel ei gilydd fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg fodern. Mae'r rhaglen yn ceisio codi disgwyliadau addysgol ar gyfer plant ysgolion cynradd Ynys Môn ac i ddiwallu'r disgwyliadau hynny drwy ddarparu addysg o ansawdd uchel iddynt mewn adeiladau ysgol sy'n addas i bwrpas.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith y cynlluniau i ddatblygu tai yn Llangefni. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd fod y cynlluniau hynny wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r cynigion. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Swyddogion wedi asesu effaith y tai newydd gan ddefnyddio fformiwla i ragfynegi niferoedd disgyblion yn nalgylchoedd pob un o'r tair ysgol. Ar gyfer yr ymgynghoriad statudol hwn, 237 yw nifer y tai yn nalgylch y tair ysgol, fyddai'n golygu 40 o ddisgyblion ychwanegol.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith y bydd y Côd Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig yn dod i rym ym mis Medi 2018 ac mai un o argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol oedd oedi'r broses foderneiddio nes bod y Côd newydd yn cael ei weithredu. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynglŷn ag effaith debygol y Côd ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod yr ymgynghoriad hwn wedi cymryd y Côd diwygiedig drafft i ystyriaeth. Dywedodd fod y Côd diwygiedig, er yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn nodi'n glir nad yw hynny'n golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau ond fod rhaid i'r achos dros gau fod yn gryf ac na ddylid gwneud penderfyniad i gau ysgol wledig hyd nes bod pob opsiwn ymarferol heblaw cau'r ysgol wedi cael eu hystyried. Pwysleisiodd y Swyddog fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn ei sylwadau i'r Cynulliad ar 25 Ebrill, wedi datgan mai mater i'r Awdurdod Lleol yw cynllunio llefydd ysgol.



DRAFT

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod amheuon wedi cael eu codi ynglŷn â pherchnogaeth tir ac adeilad cymunedol yn gysylltiedig ag Ysgol Bodffordd. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd fod y cwestiwn ynghylch perchnogaeth wedi'i ddatrys. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y gallai adrodd, yn dilyn derbyn cadarnhad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ac Eiddo, fod Ysgol Bodffordd, y tir a'r cae chwarae ym mherchnogaeth y Cyngor Sir.

  I grynhoi, diolchodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid i bawb oedd wedi cyfrannu at y drafodaeth a dywedodd ei fod yn cydnabod y pwyntiau a wnaed. Atgoffodd y rhai oedd yn bresennol fod 40% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Addysg; ni fyddai gwneud dim yn arwain at wella'r gwasanaeth addysg ond byddai'n cael effaith sylweddol ar wasanaethau eraill y cyngor oherwydd byddai'r adnoddau'n parhau i leihau. Byddai gwneud dim yn ychwanegu at yr ansicrwydd. Dywedodd ei fod yn credu'n gryf yn Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni o ran codi safonau a chreu'r amgylchiadau lle gall plant ac athrawon lwyddo. Roedd y cydnabod fod y penderfyniad yn un anodd i'w wneud ond, ar sail nifer o ffactorau, roedd yn argymell Opsiwn 2 i'r Pwyllgor Gwaith.

  Er mwyn cydnabod pryderon ynghylch dyfodol gweithgareddau cymunedol ym Modffordd yn dilyn cau'r ysgol, cynigiodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff welliant sef fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd a chyda cymuned Bodffordd i ddiogelu a chadw'r neuadd gymuned. Dylai'r trafodaethau gychwyn yn ystod y 6 wythnos nesaf. Cymeradwywyd y gwelliant gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai drwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu fel ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai'n rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn [h.y. erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2018/19] bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod cyflymder cyfredol y gwelliant yn cynyddu a bod y rhagolygon o ran niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi.**
- **Bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd a chyda cymuned Bodffordd er mwyn diogelu a chadw'r neuadd gymuned. Y trafodaethau hynny i gychwyn yn ystod y 6 wythnos nesaf.**

## 10. STRATEGAETH GWRTH DLODI

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Strategaeth Gwrth Dlodi ddrafft. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r strategaeth er mwyn ymgynghori arni.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) fod tlodi'n bodoli mewn nifer o gymunedau yn Ynys Môn a bod gan y Cyngor rôl ganolog o ran taclo tlodi ac i gynorthwyo unigolion i oresgyn cyfnodau o dlodi. Mae'r Strategaeth Gwrth Dlodi wedi bod yn destun trafodaeth fewnol ymysg swyddogion o fewn y cyngor ac mae'n nodi dechrau taith - nod y strategaeth yw dod i gytundeb ar ddiffiniad corfforaethol o dlodi, codi ymwybyddiaeth a gosod gwaelodlin o weithgareddau o fewn gwasanaethau a gyda phartneriaid a datblygu dull o fesur effaith gwasanaethau ar daclo tlodi o fewn cymunedau'r

Ynys. Dywedodd y Swyddog fod Cynllun Gweithredu'n bodoli eisoes yn seiliedig ar weithgareddau sy'n digwydd yn barod o fewn gwasanaethau ond bod angen datblygu'r gwaith ymhellach er mwyn darparu tystiolaeth gliriach ynglŷn â sut mae gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth. Y bwriad yw ymgynghori'n ehangach ar y strategaeth gyda phartneriaid y Cyngor a chyda'r cyhoedd fel bod y strategaeth derfynol yn un gynhwysol ac yn seiliedig ar gonsensws ynghylch beth sy'n bosib ei gyflawni yn yr ardal hon.

Mewn ymateb i sylwadau ynglŷn ag ail-ystyried teitl y strategaeth, awgrymodd y Cadeirydd y byddai modd trafod hynny yn ystod yr ymgynghoriad ehangach sy'n cael ei hargymell gyda phartneriaid a'r cyhoedd.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth Dlodi fel y gellir ymgynghori yn ei chylch.**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

## 12. BENTHYCIAD PONTIO I GRŴP NEUADD BENTREF LLANDDONA

Cyflwynwyd, er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ynglŷn â chaniatáu benthyciad pontio i Grŵp Neuadd Bentref Llanddona. Roedd yr adroddiad yn nodi pam fod angen y benthyciad, y telerau ac amodau ar gyfer cymeradwyo'r benthyciad ynghyd â'r ystyriaethau perthnasol ar gyfer penderfynu ar hynny.

**Penderfynwyd cymeradwyo benthyciad pontio yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd ar gyfer eitemau 7 a 9**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **21 Mai 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd.  Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2018 – Ionawr 2019;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2018 – Ionawr 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 16

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2018 – Ionawr 2019** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mehefin 2018** | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017/18**<br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2018 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2017/18 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau. | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cymeradwyo Achos Busnes i'r Bid Twf Gogledd Cymru: Cytundeb Rhyng-Awdurdod 1 (S)** | Penderfyniad cyfunol – gan fod mynd i mewn i'r cytundeb yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd ei bwysigrwydd. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro /<br>Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Cyng. Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | Gorffennaf 2018<br>(i'w gadarnhau) |
| 6 | **Bargen Twf Gogledd Cymru: Blaenoriaethu Prosiectau** | Penderfyniad cyfunol – mae'r drafodaeth, y dealltwriaeth a'r gefnogaeth i flaenoriaethu'r prosiectau'n benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a hynny er mwyn sicrhau cyfranogiad a chytundeb llawn. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng. Carwyn Jones | | Dyddiad i'w gadarnhau | |
| 7 | **Prosiect Ysgol Santes Dwynwen**<br><br>Cymeradwyaeth i symud dyddiad cwblhau'r rhybudd statudol. | Penderfyniad cyfunol, i gydymffurfio gyda'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Mehefin, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 9 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018<br>I'w gadarnhau | |
| 10 | **Cymunedau Ymlaen Môn** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| 11 | **Ffoaduriaid Syria** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Mehefin 2018 | |
| | | | | **Gorffennaf 2018** | | | |
| 12 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2017/18** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |
| 14 | **Strategaeth Gwrthdlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Mehefin/ Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| 15 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | |
| 16 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18 (S)**<br><br>Derbyn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir. | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | 25 Medi 2018 |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Protocol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Gorffennaf 2018 | 25 Medi 2018 |
| | | | | | | | |
| 18 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol**<br><br>Ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol newydd | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Gorffennaf 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Gorffennaf 2018 | |
| | **Medi 2018** | | | | | | |
| 19 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 20 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 22 | **Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 23 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 24 | **Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi, 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 26 | **Safonau Ansawdd Tai Cymru – methiannau Derbyniol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| 27 | **Polisi ymdrin â gwaith a safonau Cynnal a Chadw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Medi 2018 | |
| | | | | **Hydref 2018** | | | |
| 28 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Hydref 2018 | |
| | **Tachwedd 2018** | | | | | | |
| 30 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Tachwedd 2018 | |
| | | | | | | | |
| 31 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 32 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | |
| 34 | **Polisi Gamblo**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y dylid cymeradwyo'r polisi. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Tachwedd 2018 | 11 Rhagfyr 2018 |
| | | | | **Rhagfyr 2018** | | | |
| 35 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |
| 36 | **Strategaeth Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 5 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Rhagfyr 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2018 – Ionawr 2019

Diweddarwyd 10 Mai 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr 2019** | | | | | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Ionawr 2019 | |

Tudalen 26

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN** |
| Dyddiad | **21.05.2018 / I'w drefnu** |
| Pwnc | **I'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1 a ddirprwyo'r cyfryw bwerau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)** |
| Aelod(au) Portffolio | **Y Cynghorydd Richard Dew**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| Pennaeth Gwasanaeth | **Dylan Williams - Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)**<br>**Lynn Ball - Pennaeth Gwasanaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Wyn Yaxley - Cyfreithiwr: Llywodraethu Corfforaethol**<br>**Est. 2566**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |

| A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau |
|---|
| 1. Bod y Cyngor yn:<br>1.1 Mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Adran A **Atodiad 1;**<br>1.2 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo ymarfer y pwerau a nodir yn Adran A **Atodiad 1,** i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);<br>1.3 Tynnu'r pwerau a restrir yn Adran B **Atodiad 1,** o'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad, sy'n dirprwyo'r Pwerau hyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);<br>1.4 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth y Cyngor (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol, i adlewyrchu mabwysiadu, dirprwyo a dileu'r cyfryw bwerau;<br>1.5 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth y Cyngor (Swyddog y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn y dyfodol, heb orfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Llawn, lle bo'r newidiadau hynny o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol pan fo angen ychwanegu / newid y ddirprwyaeth i swyddogion er mwyn gweithredu'r pŵer neu'r hawliau ychwanegol a roddwyd i'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth ddiwygiedig neu newydd.<br>1.6 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yr hawl i:<br>"Adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisioes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth |

| |
|---|
| perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor, oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor". |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae gan y Cyngor yr opsiwn o wrthod mabwysiadu'r pwerau yn Adran A **Atodiad 1** ond bydd mabwysiadu (a dirprwyo) yn galluogi'r Cyngor i weithredu ystod ehangach o ddatrysiadau. Ceir manylion am y pwrpasau y gellir defnyddio pob pŵer ar eu cyfer yn **Atodiad 2.**<br><br>Mae dileu'r ddeddfwriaeth a restrir yn Adran B **Atodiad 1,** yn ymarfer da o safbwynt 'cadw tŷ' er mwyn dileu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth nad oes pwrpas iddi bellach o safbwynt gofynion gweithredol y Cyngor.<br><br>Ar hyn o bryd, mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn i wneud <u>unrhyw</u> newidiadau i'r Cyfansoddiad. Mae cais yn yr adroddiad hwn i rai newidiadau cyfansoddiadol, megis yr un y manylir arno yn yr adroddiad hwn, gael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, yn hytrach na pharatoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor llawn. Bydd newidiadau Cyfansoddiadol sy'n wleidyddol arwyddocaol a newidiadau sy'n ddewisol yn lleol yn parhau i fod yn fater i'r Cyngor llawn, ond rhoddir pŵer dirprwyedig i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro wneud y newidiadau cyfansoddiadol hynny sy'n codi oherwydd deddfwriaeth newydd, ddiwygiedig neu ddirymedig, a bydd hyn yn yn cynnwys ychwanegu neu ddileu cyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno i neu oddi ar restr y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol o faterion dirprwyedig. Byddai hyn o gymorth o safbwynt llwythi gwaith swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn. Nid yw cynnwys cyfeiriad o'r fath yn y Cyfansoddiad yn gysyniad newydd; mae'n hysbys ei fod wedi'i gynnwys yng nghyfansoddiadau cynghorau eraill er mwyn symleiddio prosesau a sicrhau bod newidiadau technegol yn cael eu gweithredu mor fuan a llyfn â phosib. |

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan fod yr adroddiad yn cynnwys bwriad i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo, sy'n rhan o'r Cyfansoddiad, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| **CH - a yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi, lle mae hynny'n berthnasol |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Bydd cost ymarfer y pwerau newydd / ychwanegol hyn yn dod o fewn cyllideb weithredol y Gwasanaeth.<br><br>Bydd costau posibl yn un o'r pethau a gymerir i ystyriaeth cyn i'r pwerau gael eu gweithredu a hynny ar sail achos fesul achos. |

| D – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Aarweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Trafodwyd yr Adroddiad ar 08.05.2018 – cefnogir y cynnig |
| **2** | **Cyllid / Adran 51** (gorfodol) | Rhan o 1 uchod |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Adroddiad gan yr Adran Gyfreithiol / Swyddog Monitro – cefnogi'r cynnig |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Caffael** | Ddim yn berthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Aelodau Portffolio / Aelodau Portffolio Cysgodol |

| E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol) | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Gall ymarfer y pwerau ar sail teilyngdod yr amgylchiadau fod o fudd i ardaloedd difreintiedig |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Nod rhywfaint o'r ddeddfwriaeth yn **Atodiad 1** yw mynd i'r afael â materion trosedd / gweithgaredd anghyfreithlon |
| **4** | **Amgylcheddol** | Bydd ymarfer rhai o'r pwerau sydd i'w dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) yn ceisio mynd i'r afael â rhai materion amgylcheddol, gan gynnwys hylendid bwyd a lles anifeiliaid ac ati. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| **Atodiad 1: -**<br>Mae Adran A yn rhestru'r pwerau ychwanegol y gellir eu mabwysiadu gan y Cyngor, ac y gall y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) arfer ei awdurdod dirprwyedig yn unol â nhw. |

Mae Adran B yn rhestru'r ddeddfwriaeth nad os angen iddi bellach fod yn rhan o awdurdod dirprwyedig y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd). Felly, mae'n ymarfer da o safbwynt cadw tŷ i ddileu'r cyfeiriadau at y rhain o'r Cyfansoddiad.

**Atodiad 2: -** Tabl sy'n crynhoi'r rhesymau dros y pwerau dirprwyedig ychwanegol.

| FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| Dim |

**ATODIAD 1**

**Adran A: - Deddfwriaeth Ychwanegol i'w hychwanegu at y Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd): -**

Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 - adran 141A
Rheoliadau Biodanwydd (Labelu) 2004
Rheoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004
Rheoliadau Ffwr Cathod a Chŵn (Rheoli Mewnforio, Allforio a'u Rhoi ar y Farchnad) 2008
Rheoliadau Gorfodaeth REACH 2008
Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011
Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011
Deddf Plant a Theuluoedd 2014 - adran 91
Rheoliadau Clefydau Moch 2014
Rheoliadau Ffrwydron 2014
Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015
Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015
Rheoliadau Nwyddau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015
Rheoliadau Offerynnau Mesur 2016
Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig 2016
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygiad) 2016
Rheoliadau Casein a Chaseinadau (Cymru) 2016
Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017
Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017
Rheoliadau Offer Radio 2017
Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi ei Botelu (Cymru) (Diwygiad) 2017
Rheoliadau Marchnata Planhigion, Ffrwythau a Deunydd Lluosi (Cymru) 2017
Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygiad) (Diwygiad) 2017
Rheoliadau Dŵr Ymdrochi (Diwygiad) (Cymru) 2017
Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017
Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau (Diwygio) 2018
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018
Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig (Diwygiad) 2018
Gorchymyn Deddf Menter 2002 (Rhan 9 Cyfyngiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) (Manyleb) 2018
Rheoliadau Llaeth Anwedd a Llaeth Sych (Cymru) 2018
Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**Adran B: - Deddfwriaeth i'w thynnu o'r Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd): -**

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011
Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg 1998
Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008
Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009
Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009
Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig (Gofynion EEC) 1995
Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo 2010
Rheoliadau Cemegol (Peryglon, Gwybodaeth a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 1994
Deddf Llongau Masnachol 1979 mewn perthynas â: -
Rheoliadau Llongau Masnachol (Pwyso Cerbydau Nwyddau a Chargo arall) 1988
Deddfau Petrolewm (Rheoleiddio) 1928 a 1936
Rheoliadau Diwygio Cyflenwadau Dŵr Preifat 2016

**ATODIAD 2**

| **Enw'r Ddeddfwriaeth** | **Effaith y Ddeddfwriaeth** |
|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 - adran 141A | Gwerthu cyllyll a rhai nwyddau gyda llafn neu bwynt miniog i bobl dan 16 oed |
| Rheoliadau Biodanwydd (Labelu) 2004 | Maent yn darparu mecanwaith ble gall awdurdodau pwysau a mesurau orfodi'r gofynion labelu ar gyfer biodanwyddau. |
| Rheoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004 | Gwarchod defnyddwyr sy'n prynu cynhyrchion a gwasanaethau 'o bell' |
| Rheoliadau Ffwr Cathod a Chŵn (Rheoli Mewnforio, Allforio a'u Rhoi ar y Farchnad) 2008 | Gwahardd rhoi ar y farchnad a mewnforio i mewn i, neu allan o'r UE, ffwr cathod a chŵn, a chynhyrchion sy'n cynnwys ffwr o'r fath. |
| Rheoliadau Gorfodaeth REACH (Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu a'r Gemegolion) 2008 | Mae'n creu cyfundrefn orfodaeth ar gyfer y Rheoliad Ewropeaidd sy'n ymwneud â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegolion (REACH) |
| Gorchymyn Moch (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 | Diweddaru'r rheoliadau blaenorol |
| Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 | Diweddaru'r rheoliadau blaenorol |
| Deddf Plant a Theuluoedd 2014 - adran 91 | Bod person 18 oed neu hŷn sy'n prynu neu'n ceisio prynu tybaco neu bapurau sigaréts ar ran unigolyn o dan 18 oed yn cyflawni trosedd |
| Rheoliadau Clefydau Moch 2014 | Darpariaethau ar gyfer rheoli clefyd pothellog y moch |
| Rheoliadau Ffrwydron 2014 | Deddfwriaeth ddiwygiedig sy'n rheoli'r modd y cyhoeddir trwyddedau ar gyfer awdurdodi storio ffrwydron |
| Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 | Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau i wella effeithlonrwydd ynni rhai eiddo rhent preifat yng Nghymru a Lloegr |
| Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015 | Mae'r Rheoliadau'n mynd i'r afael â defnyddio nwyon tŷ gwydr fflworinedig (nwy F) ac yn effeithio ar unrhyw un sy'n:<br><br>• cynhyrchu, gwerthu, defnyddio neu'n cynnal a chadw cyfarpar sy'n cynnwys nwy F, megis |

| | |
|---|---|
| | systemau oeri ac aerdymheru, toddyddion neu aerosolau,<br><br>• yn cynhyrchu neu'n gwerthu nwy F, ac<br><br>• yn mewnforio neu'n allforio nwy F, neu offer sy'n cynnwys nwy F, i mewn i'r UE neu allan ohoni |
| Rheoliadau Nwyddau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015 | Maent yn cyflwyno â darpariaethau newydd ar gyfer olrhain yn well unrhyw nwyddau pyrotechnig. |
| Rheoliadau Offerynnau Mesur 2016 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig 2016 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Gwneud darpariaeth mewn perthynas â thenantiaethau a thrwyddedau sy'n rhoi'r hawl i feddiannu annedd fel cartref, gan gynnwys darpariaeth sy'n sefydlu dau fath o gontract at ddiben rhentu cartrefi |
| Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Casein a Chaseinadau (Cymru) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 | Darpariaethau Iechyd Cyhoeddus gan gynnwys:<br><br>**Ysmygu**<br><br>• yn ei gwneud yn drosedd i ysmygu mewn mannau penodol a cherbydau, gan gynnwys llawer o leoliadau awyr agored, gydag awdurdodau lleol yn cael eu dynodi'n awdurdodau gorfodi<br><br>• yn darparu ar gyfer cofrestr orfodol o fanwerthwyr cynhyrchion tybaco a nicotin, gan ei gwneud yn drosedd i unrhyw un werthu nicotin neu gynhyrchion tybaco oni bai eu bod ar y gofrestr<br><br>• yn golygu ei bod yn drosedd rhoi tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin i bobl dan 18 oed<br><br>**Aciwbigo, tyllu corff, electrolysis a thatŵio**<br><br>Mae'n golygu bod angen i unrhyw un sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn ystod busnes sydd i'w drwyddedu.<br><br>**Tyllu rhannau personol o'r corff** |

| | |
|---|---|
| | Mae'n ei gwneud yn drosedd i dyllu neu wneud trefniadau i dyllu rhannau personol o gorff unrhyw berson dan 18 oed yng Nghymru. |
| Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi ei Botelu (Cymru) (Diwygio) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Marchnata Planhigion, Ffrwythau a Deunydd Lluosi (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Gorchymyn Rheoli Haint (Cymru) (Diwygiad) (Diwygiad) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Dŵr Ymdrochi (Diwygiad) (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017 | Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2018 ac maent yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad UE 2015/2283 o 25 Tachwedd 2015 ar fwydydd newydd.<br><br>Mae rheoliad 3 yn gwneud awdurdodau bwyd yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau.<br><br>Mae rheoliad 6 yn dirymu Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997 (1997: 1335), Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd (Ffioedd) 1997 (1997: 1336) a Rheoliadau Ensymau Bwyd (Cymru) 2009 (2009: 3377). |
| Rheoliadau Offer Radio 2017 | Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 26 Rhagfyr 2017 gan ad-drefnu Cyfarwyddeb 2014/53 / UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 16 Ebrill 2014 ar gysoni cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â darparu offer radio ar y farchnad a diddymu Cyfarwyddeb 1999/5 / EC (OJ L 153, 22.5.2014, tud.62).<br><br>Mae'r Gyfarwyddeb yn diddymu ac yn disodli Cyfarwyddeb 1999/5 / EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 9 Mawrth 1999 mewn perthynas ag offer radio ac offer terfynell telathrebu a chydnabod eu cydymffurfiaeth (OJ L 91, 7.4.1999, t.10) a weithredwyd yn y Deyrnas Unedig dan Reoliadau Offer Radio a Therfynellau Telathrebu 2000 (2000: 730). **Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli OS 2000: 730, ac mae’r holl bwerau ac ati yn parhau i fodoli gan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987**<br><br>Mae rheoliad 55 yn dynodi 'awdurdod pwysau a mesurau' fel yr awdurdod sy’n goruchwylio’r farchnad ac yn dweud bod raid iddo wneud trefniadau digonol ar gyfer goruchwylio’r farchnad o dan y |

| | |
|---|---|
| | Rheoliadau hyn a RAMS (i'r graddau y mae'n ymwneud ag offer radio). Mae rheoliad 56 yn gosod ***dyletswydd o orfodaeth ar yr awdurdod pwysau a mesurau.*** |
| Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau (Diwygio) 2018 | Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Chwefror 2018 ac maent yn diwygio Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau 2009 (OS 2009: 2824).<br><br>Roedd Rheoliadau 2009 yn ad-drefnu Cyfarwyddeb y Cyngor 75/324 / EEC ac mae'r Gyfarwyddeb honno wedi'i diwygio gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2016/2037. Mae'r diwygiadau hyn yn cynyddu'r pwysau mwyaf posibl a ganiateir mewn rhai mathau o gyfarpar dosbarthu erosolau ac yn golygu bod y gofynion labelu ar gyfer cyfarpar dosbarthu erosolau yn cyd-fynd â'r gofynion yn Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 sy'n ymwneud â chategoreiddiad, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau.<br><br>Gwnaed Rheoliadau 2009 o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987 sy'n gosod ***dyletswydd o orfodaeth*** ar awdurdodau Pwysau a Mesurau lleol. |
| Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018 | Daw'r rheoliadau hyn i rym ar 6 Chwefror 2018<br><br>Mae'r Rheoliadau yng Nghymru mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, yn ad-drefnu Erthygl 21 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59 / Euratom sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n deillio o fod yn agored i ymbelydredd ïoneiddio, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 89/618 / Euratom, 90 / 641 / Euratom, 96/29 / Euratom, 97/43 / Euratom a 2003/122 / Euratom.<br><br>Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud newidiadau i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodaeth) (Cymru) 2016 (OS 2016: 387) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol mewn perthynas â Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 OS 2009: 3376) o ran rhybuddion gwella a rhybuddion gwahardd. |
| Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig (Diwygiad) 2018 | Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Chwefror 2018, ond gyda rhai eithriadau a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau sylweddol i Reoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015 (OS 2015: 310 sy'n cael eu gorfodi gan awdurdodau lleol.<br><br>Maent yn diweddaru Rheoliadau 2015 i gynnwys cyfeiriadau at nifer o Reoliadau Gweithredu'r Comisiwn a fabwysiadwyd ers i Reoliadau 2015 ddod i rym. Yn benodol, ymgorfforir Atodlenni newydd, sef rhifau 4 a 5 sy'n darparu mecanweithiau ar gyfer cosbau sifil y gall awdurdodau gorfodi fynnu arnynt. |

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Deddf Menter 2002 (Rhan 9 Cyfyngiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) (Manyleb) 2018 | Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2018 ac mae'n ychwanegu at y Rhestr yn Atodlen 15, Deddf Menter 2002.<br><br>Gellir datgelu gwybodaeth benodol i orfodwyr deddfwriaeth a restrir yn yr Atodlen honno. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â dwy set o Reoliadau a orfodir gan OFGEM. |
| Rheoliadau Llaeth Anwedd a Llaeth Sych (Cymru) 2018 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae'n ymwneud â charafannau preswyl parhaol. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r awdurdod lleol wella rheoleiddio o fewn y diwydiant, i wella amodau ar safleoedd cartrefi symudol ac i sicrhau bod hawliau trigolion yn cael eu gwarchod yn well. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 21 Mai 2018 |
| **Pwnc:** | Gofyn am ganiatâd i recriwtio staff asiantaeth ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Arolygwyd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn gan AGC yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y modd y mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael mynediad i wasanaethau cymorth a gofal ac ansawdd y canlyniadau ar gyfer plant sydd angen help, gofal a chymorth ac / neu eu diogelu, gan gynnwys plant sydd wedi dod i ofal yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Gwerthusodd yr arolygiad hefyd ansawdd y trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant sydd ar waith i ddatblygu a chefnogi’r ddarpariaeth o wasanaeth. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol AGC ar 7 Mawrth 2017. Roedd yn yr adroddiad 14 o argymhellion, saith ohonynt yn rhai yr oedd angen rhoi blaenoriaeth iddynt ar unwaith a saith i'w gweithredu erbyn Mawrth 2018.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion, mae'r awdurdod wedi rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:

- Cynllun Gwella Gwasanaeth (SIP) diwygiedig, yn ymgorffori'r holl Argymhellion a wnaed yn Adroddiad Arolygu AGC yn erbyn y 5 thema.
- Gweithredu trefniadau Rheoli Prosiect newydd, gyda Grŵp Gwella Mewnol o swyddogion yn cyfarfod yn fisol, ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Gwaith.
- Sefydlu Panel o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau awdurdod lleol ym Mai 2017, sy'n adrodd bob chwarter i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd misol gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, i oruchwylio datblygiad a gweithrediad y Strategaeth Gweithlu, ac i sicrhau bod penodiadau allweddol i swyddi Rheolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer yn cael eu gwneud ar y cyflymder priodol.

Mae’r gallu i recriwtio a chadw staff sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc Ynys Môn yn hollbwysig os ydym am gyflawni'r rhwymedigaethau sydd arnom dan y ddeddfwriaeth. Mae gweithlu ansefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal ac sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, wedi rhoi straen sylweddol ar ein gwasanaethau.

Mae mynd i'r afael â hyn yn elfen allweddol o'n Cynllun Gwella Gwasanaeth, ac rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar yr elfennau canlynol yn y misoedd diwethaf:

- **Ail-strwythuro’r Gwasanaeth** – gweithredwyd hyn o 4 Hydref 2017 lle cymerodd yr 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb am eu Grwpiau Ymarfer. Cafodd 4 o'r Arweinyddion Ymarfer eu recriwtio o'r tu allan i'r sefydliad ac maent yn dod â lefel uchel o wybodaeth a sgiliau yn y meysydd a nodir yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth fel rhai y mae angen eu datblygu ymhellach. Roedd y 4 Arweinydd Ymarfer arall a benodwyd yn ymarferwyr profiadol yn gweithio yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac a oedd yn barod ar gyfer dyrchafiad. Maent yn rheoli grwpiau llai ar draws Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys, gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am dri neu bedwar o Weithwyr Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gan bob Gweithiwr Cymdeithasol fwy o fynediad at eu rheolwyr sy’n eu galluogi i gael cyngor cynnar ar ddelio ag achosion unigol ynghyd â chymorth a goruchwyliaeth ddigonol. Mae gwaith pellach i'w wneud i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gwneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol priodol ar gael i Grwpiau Ymarfer i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

- Fe wnaethom recriwtio **7 Gweithiwr Cymdeithasol newydd** dros y misoedd diwethaf sydd yn lleol ac sydd, ar wahân i un, yn siaradwyr Cymraeg rhugl gyda hynny’n sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion ieithyddol plant a theuluoedd sy'n dod i gysylltiad â'r Gwasanaeth; mae hyn hefyd yn ein galluogi i gydymffurfio â *Mwy na Geiriau*, strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

- Rydym wedi penodi **2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn** a 1.5 o swyddi ychwanegol pellach trwy’r **Grant Teuluoedd yn Gyntaf**. Mae hyn wedi cryfhau'n sylweddol ein capasiti o ran gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y mae gofyn i bob awdurdod lleol ei sefydlu wrth weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Mae'r **Tîm Teuluoedd Gwydn** bellach wedi'i staffio'n llawn ac yn gweithio gyda theuluoedd i'w hatal rhag torri i lawr ac i gefnogi plant sy'n byw gartref. Yn ddiweddar, enillodd Arweinydd Ymarfer y Tîm hwn wobr genedlaethol gan **Gymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol** (BASW) ar ei gwaith i ddatblygu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal a threfniadau i gefnogi gofalwyr maeth i atal lleoliadau rhag torri i lawr.

- Yn ddiweddar, rydym wedi recriwtio i nifer o swyddi ychwanegol eraill yn y Gwasanaeth a bydd hynny'n parhau i gryfhau ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Maent yn cynnwys recriwtio:

  **3 x Gweithiwr Cymorth ychwanegol** yn y Tîm o Amgylch y Teulu, a ariennir gan y Grant Teuluoedd yn Gyntaf

  **Ymgynghorydd Personol ychwanegol** wedi ei ariannu drwy **Grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru** i ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddant yn 18 oed.

- Fel Gwasanaeth, rydym wedi datblygu trefniant **Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol** yn fewnol i alluogi 2 o'n staff i hyfforddi i fod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwysedig (cwrs 2 flynedd). Gan ein bod wedi gweld trosiant sylweddol o staff dros y 18 mis diwethaf, nod y strategaeth hon o *'Ddatblygu ein pobl ein hunain'* yw sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol cymwys a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl cymhwyso.

- Mae'r **Strategaeth Gweithlu**, a gymeradwywyd yr haf diwethaf, bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol, a darparu'r cymorth sydd ei angen ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Ynys Môn. Datblygwyd cynllun gweithredu gyda chefnogaeth lawn AD ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob 6 - 8 wythnos, dan Gadeiryddiaeth y Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei weithredu'n effeithiol a'r prif elfennau yw:

  - Datblygu set o ddeunyddiau marchnata sy'n manylu ar y manteision o weithio i'r Awdurdod a'u cyflwyno ar yr holl gyfryngau.
  - Datblygu cynllun recriwtio ar gyfer pob swydd wag yn syth wedi i swyddog ymddiswyddo a hynny ar y cyd ag Adnoddau Dynol.
  - Sefydlu dulliau dethol effeithiol.
  - Sicrhau bod prosesau'n canolbwyntio ar recriwtio diogel.
  - Lleihau oedi yn y gwahanol gamau o'r broses recriwtio.
  - Datblygu rhaglen gynefino gyson ac effeithiol.
  - Creu diwylliant cefnogol, herio perfformiad gwael trwy ddarparu cyfeiriad clir, goruchwyliaeth reolaidd a chymorth datblygiadol er mwyn galluogi ein holl weithwyr i berfformio'n effeithiol.
  - Datblygu staff presennol, a darparu amgylchedd gwaith diogel i bawb, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau newydd a symud ymlaen.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Isod, gwelir 'statws' cyfredol pob Gweithiwr Cymdeithasol sydd â baich achosion, o ran nifer y blynyddoedd y maent wedi bod yn gymwys:

| | |
|---|---|
| **NQSW 0-1 Blwyddyn** | 1 Môn 1 |
| | 1 Môn 2 |
| | 1 Môn 3 |
| | 1 Môn 4 |
| | 1 Môn 5 |
| | 1 Teuluoedd Gwydn |
| **NQSW 2-3 Blwyddyn** | 1 Môn 3 |
| | |
| **3+ blynedd** | 2 Môn 1 |
| | 1 Môn 3 |
| | 2 Môn 6 |
| | |
| **Staff Asiantaeth x 8** | 2 Môn 2 (1 a Swydd Wag) |
| | 1 Môn 3 |
| | 2 Môn 4 |
| | 2 Môn 5 |
| | 1 Môn 6 |

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth ar siwrnai wella. Mae'r holl swyddi gwag wedi'u llenwi â Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth. Ar hyn o bryd, mae yna 7 swydd wag sy'n golygu bod gan yr adran 7 o weithwyr cymdeithasol asiantaeth yn y swyddi hynny; mae un swydd wag yn un dros dro gan fod Gweithiwr Cymdeithasol wedi dechrau mewn swydd yn gweithredu fel Arweinydd Ymarfer gan fod yr Arweinydd Ymarfer swyddogol ar gyfnod mamolaeth.

Rydym wedi hysbysebu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol profiadol yn y Guardian bedair gwaith ers mis Tachwedd 2017; mae hysbyseb dreigl hefyd ar wefan y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at recriwtio un Gweithiwr Cymdeithasol profiadol iawn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i hysbysebu am weithwyr cymdeithasol parhaol ac yn ystod ei rownd recriwtio ddiweddaraf mae wedi penodi 3 o fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a fydd yn gymwys ym mis Hydref 2018 fel Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (NQSW). Felly, mae angen i ni gadw 7 Gweithiwr Cymdeithasol Asiantaeth hyd nes y bydd yr NQSW wedi cymhwyso.

Isod, gweler costau cadw'r trefniadau staff asiantaeth presennol hyd at ddiwedd mis Hydref pan fydd y 3 NQSW yn gallu cymryd baich achosion:

**Costau Gweithiwr Asiantaeth o fis Ebrill tan ddiwedd mis Hydref 2018**

| Swydd | Cost yr awr £ | Cyfanswm £ | Cyllideb ar gyfer swyddi gwag am saith mis - Gradd 7 Pt 40 | Cost ychwanegol £ |
|---|---|---|---|---|
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 1 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 2 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 3 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 4 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 5 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 6 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 7 | 39.00 | 42,712.80 | 27,241.67 | 15,471.13 |
| **Cyfanswm** | | **298,989.60** | **190,691.67** | **108,297.93** |

| | |
|---|---|
| Cyllideb staff asiantaeth sydd ar gael 2018-19 (DG020 / A0500) | **£ 51,640.00** |
| Cost ychwanegol gan gynnwys £ 51,640 (cyllideb asiantaeth blwyddyn lawn) | **£ 56,657.93** |

Roedd pedwar ymgeisydd arall y gellid bod wedi'u penodi yn yr ymgyrch recriwtio yn ddiweddar; fodd bynnag, o gofio bod bwlch o 6 mis o'r dyddiad hwn hyd nes y byddai’r myfyrwyr yn cymhwyso, y teimlad oedd y byddai'n well ail-redeg yr hysbyseb "gweithiwr cymdeithasol profiadol" o leiaf 3 gwaith eto yn ystod y cyfnod hwnnw yn y gobaith y byddai modd recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol.

Fodd bynnag, roedd yr anawsterau a gafwyd ledled Cymru a Lloegr o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn awgrymu nad oedd hynny’n debygol o ddigwydd. Roedd gan Newyddion y BBC erthygl o'r enw *'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yng*

*Nghymru' yn agos at argyfwng '* a oedd yn tanlinellu'r anawsterau sy'n wynebu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ledled Cymru:
https://www.bbc.co.uk/news/amp/uk-wales-43951732?__twitter_impression=true

O ystyried hyn, mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried yr opsiwn canlynol:

**Penodi 7 NQSW i'r timau Gwaith Maes ym mis Hydref 2018 (3 wedi eu penodi eisoes) a chefnogi'r rhain trwy gyflogi 4 o weithwyr cymdeithasol asiantaeth ychwanegol am 12 mis.** Mae hyn wrth gwrs yn seiliedig ar y rhagdybiaeth na fydd unrhyw staff gwaith cymdeithasol yn gadael neu'n cael eu dyrchafu yn y gwasanaeth, ac na fydd y gwasanaeth yn llwyddo i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol. Bydd sefyllfa staffio'r Tîm Lleoli Plant yn cael ei adolygu yn o fuan. Bydd ymgynghori ffurfiol gyda staff yn cychwyn ganol Mai 2018. Gall hyn gynnig opsiwn i rai staff gael eu symud i rai o'r swyddi gwag.

Os na fydd yr adran yn llwyddo i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol, bydd angen cadw'r Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth a fyddai'n ychwanegol at y sefydliad i gefnogi NQSW a hynny am y gost isod:

**<u>Costau Gweithwyr Asiantaeth o fis Tachwedd 2018 hyd ddiwedd Mawrth 2019</u>**

| Swydd | Cost yr awr £ | Cyfanswm £ | Y gyllideb ar gyfer swyddi gwag am saith mis - Gradd 7 Pt 40 | Cost ychwanegol £ |
|---|---|---|---|---|
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 1 | 39.00 | 30,921.43 | | 30,921.43 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 2 | 39.00 | 30,921.43 | | 30,921.43 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 3 | 39.00 | 30,921.43 | | 30,921.43 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 4 | 39.00 | 30,921.43 | | 30,921.43 |
| **Cyfanswm** | | **123,685.71** | | **123,685.71** |

<u>Achosion Etifeddiaeth</u>

Yn ddiweddar, daeth y Pennaeth Gwasanaeth yn ymwybodol o achosion sydd naill ai:

1. Yn achosion lle gwnaed penderfyniadau gwael yn hanesyddol
2. Yn achosion sydd wedi llithro

3. Yn achosion nad ydynt ar y cynllun cywir
4. Goddefgarwch Proffesiynol mewn perthynas ag Esgeulustod a Cham-drin Emosiynol
5. Diffyg ymagwedd ‘ymholgar’ yn y maes Gwaith Cymdeithasol.

Cyfeirir at y rhain fel "Achosion Etifeddiaeth".

Mae'r Gwasanaeth wedi methu ymateb yn briodol i achosion, rhai yn mynd yn ôl 14 mlynedd, a dim ond y mis hwn, gorchmynwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan Farnwr i esbonio pam fod yr Awdurdod wedi gweithio gyda theulu yn ysbeidiol am 14 mlynedd (ers 2004) a heb gymryd camau gofal yn gynharach i symud y plant o sefyllfa o risg.

Mae yna achosion eraill fel hyn sy'n agored i'r Gwasanaeth ac mae angen i gynlluniau symud ymlaen yn briodol. Pryder arall yw bod achosion nad ydynt yn hysbys i'r Gwasanaeth ar hyn o bryd oherwydd eu bod wedi cael eu cau yn rhy fuan neu efallai bod y trothwy ar gyfer derbyn achosion wedi bod yn rhy uchel. Mae angen sefydlu cynllun strategol i ailasesu achosion o'r fath heb orfod cael pwynt sbarduno. Dyma'r cynllun arfaethedig:

**I recriwtio 3 Gweithiwr Cymdeithasol asiantaeth ac 1 Arweinydd Ymarfer dros sefydliad i'w reoli'n uniongyrchol gan y Pennaeth Gwasanaeth er mwyn archwilio, asesu a symud yr achosion hyn i'r cynllun cywir neu i'r Llysoedd.**

Isod, gweler cost cyflwyno 'Grŵp Ymarfer' ychwanegol i reoli'r gwaith hwn:

**<u>Costau Gweithiwr Asiantaeth o fis Mai tan ddiwedd mis Tachwedd 2018</u>**

| **Swydd** | **Cost yr awr £** | **Cyfanswm £** | **Y gyllideb ar gyfer swyddi gwag am saith mis Gradd 7 Pt 40** | **Cost ychwanegol £** |
|---|---|---|---|---|
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 1 | 39.00 | 42,712.80 | | 42,712.80 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 2 | 39.00 | 42,712.80 | | 42,712.80 |
| Swydd Wag Gweithiwr Cymdeithasol 3 | 39.00 | 42,712.80 | | 42,712.80 |
| Arweinydd Ymarfer Dros Dro | 47.00 | 49,735.40 | | 49,735.40 |
| **Cyfanswm** | | **177,873.80** | **-** | **177,873.80** |

Gan ei bod yn anodd darparu ffigwr manwl gywir mewn perthynas â nifer yr achosion a fydd yn cael eu symud ymlaen i’r cam Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus neu i’r

Gweithdrefnau Gofal byddai angen i'r Gwasanaeth amcangyfrif a darparu capasiti ychwanegol o fewn ei wasanaethau cyfreithiol er mwyn bodloni'r galw hwn. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael eu cefnogi gan 1.5 Cyfreithiwr cyfwerth ag amser llawn o fewn y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol â chapasiti llawn o waith ar hyn o bryd.

Argymhellir felly y dylid ymestyn y capasiti ychwanegol i 2.5 Cyfreithiwr cyfwerth ag amser llawn am gyfnod o 12 mis. **Cost hyn yw £54,527.**

**Ystyriaethau ariannol:**
Mae yna gronfa wrth gefn o £144,737 yn y Gwasanaeth ar gyfer costau staffio. O'r herwydd, dyma'r swm y gofynnir amdano:

| | £ |
|---|---|
| Swyddi gweigion – 7 o weithwyr asiantaeth - Ebrill - Medi | 56,658 |
| 4 o weithwyr asiantaeth yn ychwanegol at y sefydliad Hydref – Mawrth | 123,686 |
| Gweithwyr yn ychwanegol at y sefydliad i ddelio gydag achosion 'Etifeddiaeth' | 177,874 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 54,527 |
| **Cyfanswm** | **412,745** |
| Wrth Gefn | -144,737 |
| **Cyfanswm** | **268,008** |

**Argymhellion**

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd recriwtio 7 NQSW i'r timau gwaith maes o fis Hydref 2018 (3 wedi'u penodi eisoes) a chefnogi'r rhain trwy gyflogi 4 o weithwyr cymdeithasol asiantaeth ychwanegol ar y sefydliad am 12 mis.

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd i gytuno ymestyn y capasiti ychwanegol i 2.5 Cyfreithiwr cyfwerth ag amser llawn am gyfnod o 12 mis.

- Y Pwyllgor Gwaith i gytuno i ryddhau £268,008 o gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu'r gofynion ychwanegol a amlinellir yn y papur hwn.

**B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?**

Un o'r opsiynau a ystyriwyd oedd penodi'r 4 ymgeisydd arall sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwyr a gafodd eu cyfweld, ac y gellid fod wedi'u penodi; fodd bynnag, o gofio bod bwlch 6 mis o'r dyddiad hwn hyd oni fydd y myfyrwyr yn cymhwyso, y teimlad oedd y

| |
|---|
| byddai'n well ail-redeg yr hysbyseb "Gweithiwr Cymdeithasol profiadol" o leiaf 3 gwaith eto yn ystod y cyfnod hwnnw yn y gobaith y byddem yn gallu recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan fod angen cymeradwyaeth i ryddhau arian ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i dalu am y swyddi staff asiantaeth sydd eu hangen. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Materion Adnoddau Dynol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gynhaliwyd ar 01.05.18. Cytunodd y cyfarfod hwn i hyn mewn egwyddor ond gyda'r argymhelliad ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Roedd y Swyddog Adran 151 yn bresennol yng nghyfarfod Materion Adnoddau Dynol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gynhaliwyd ar 01.05.18. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Wedi ei drafod. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Pennaeth y Proffesiwn, Adnoddau Dynol a Thrawsnewid yn bresennol yng nghyfarfod Materion Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Plant a gynhaliwyd ar 01.05.18. |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Amherthnasol |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **21 MAI 2018** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW ALLDRO 2017/18** |
| **AELOD (AU) PORTFFOLIOI:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>Bethanowen2@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2017, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2017/18 gyda gwariant net o £126.157m ar gyfer gwasanaethau i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd £0.490m arall i'w wario ar ysgolion ac i'w gyllido o arian wrth gefn y Cyngor. Felly, cyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 yw £126.647m.

**2.** Yng nghyllideb 2017/18, roedd angen gwneud arbedion gwerth £2.444m. Mae'r swm hwn yn cynnwys £490k o arbedion ar gyfer Dysgu a fydd yn cael eu cyllido o'r arian wrth gefn fel y cytnwyd gan y Cyngor. Swm diwygiedig yr arbedion ar gyfer 2017/18 yw £1.954m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac adlewyrchir llwyddiant neu fethiant i gyflawni'r rhain yn y (tan) / gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2017/18, yw gorwariant o £1,762k. Mae hyn yn unol â'r gorwariant a ragolygwyd a gafodd ei adrodd yn chwarter 3. Mae'r esboniadau am amrywiannau sylweddol o ran y cyllidebau a reolir in gynwysedig yn yr adroddiad yma. Mae hyn yn cyfateb i 1.34% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**5.** Mae nifer o eitemau heb eu cynnwys yng nghyllidebau gwasanaeth, gan fod gwariant yn erbyn y penawdau hyn tu allan i reolaeth y gwasanaethau. Wedi cymryd ystyriaeth or eitemau hyn, mae'r gorwariant ar gyfer y Cyngor yn lleihau i £1,704k a dyma'r swm sydd ar gael i'w drosglwyddo i falansau Cyffredinol y Cyngor.

**6.** Argymhellir : -

- **(i)** Nodi'r sefyllfa fel y caiff ei nodi yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2017/18;
- **(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad C:
- **(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
- **(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D;
- **(v)** Nodi monitro'r costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2017/18 yn Atodiadau DD a E;
- **(vi)** Bod yr alldro a nodir yn y ddogfen hon yn parhau'n amodol hyd nes y cwblheir yr archwiliad statudol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

| C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? | | |
|---|---|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Craffu** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / au** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| • Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2017/18<br>• Atodiad B - Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2017/18<br>• Atodiad C - Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2017/18<br>• Atodiad CH – Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed 2017/18<br>• Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2017/18<br>• Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2017/18<br>• Atodiad E – Crynodeb o'r Gwariant ar Ymgynghorwyr Alldro fesul Adran 2017/18 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb Refeniw 2017/18 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2017 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2017). | | |

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 4 2017/18

### 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol

**1.1** Roedd gan y Cyngor £13.357m o arian wrth gefn wedi ei glustnodi a £2.089m o arian wrth gefn ar gyfer ysgolion ar gychwyn y flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro terfynol ar gyfer 2016/17 at falansau cyffredinol ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol a oedd yn £8.355m. Mae'r penderfyniad isod a waned gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol wedi gostwng yr arian wrth gefn cyffredinol £630k. Mae'r £630k wedi ei wneud i fyny o £250k oherwydd costau diswyddo ychwanegol fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017, £28k ar gyfer cael gwared ar y Rovacabin a £95k i gyllido costau cychwynnol ar gyfer prosiect mawr i gryfhau'r lôn ym Miwmares sy'n tueddu i bantio yn ystod tywydd eithafol (cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ionawr 2018), a £221k a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017 am gontractau staffio Gwasanaethau Plant. Mae'r gweddill o £36k yn gyfraniad tuag gostau Ysgol Syr Thomas Jones a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mawrth 2017. Yn dilyn adolygiad o arian wrth gefn a glustnodwyd mae wedi bod yn bosib i drosglwyddo £211k yn ôl i'r balansau cyffredinol.

**1.2** Mae'r alldro am 2017/18 yn dilyn addasiadau cyfrifo yw gorwariant o £1,704k. Felly, mae'r balansau cyffredinol ar 31ain Mawrth 2018 yn £6,232m. Mae'r balans isafswm o'r arian wrth gefn cyffredinol wedi ei osod ar £6m fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018.

### 2. Rhagamcan o Berfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

**2.1** Mae gorwariant net of £2,351k (2.14%) ar gyllidebau sy'n cael eu rheoli gan Wasanaethau yn welliant ar yr alldro amcangyfrifedig a adroddwyd ar yn Chwarter 3 oedd yn rhagweld gorwariant ar Wasanaethau o £2,461k. Fodd bynnag, bydd y tanwariant o £655k (4.02%) ar Gyllid Corfforaethol yn ariannu y gorwariant ar wasanaethau. Yn ogystal, mae diffyg o £66k ar gasglu'r Dreth Gyngor. Mae hyn felly yn rhoi cyfanswm alldro refeniw am 2017/18 ac eithro addasiadau cyfrifo o orwariant o £1,762k. Yn dilyn ir addasiadau cyfrifo o £58k, mae cyfanswm y gorwariant fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol am 2017/18 yw £1,704k.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch).

| Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2018 | (Tan) / Gorwariant £000 |
|---|---|
| Dysgu | 890 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 1,778 |
| Gwasanaethau Oedolion | 215 |
| Priffyrdd | (100) |
| Busnes y Cyngor | 181 |
| Diwylliant | (144) |
| Trawsnewid Corfforaethol | (158) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (207) |
| Cyllid Corfforaethol a Budd-daliadau a Roddwyd | (655) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau'n llai na £100k) | (38) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau yn y (tan)/gorwariant** | **1,762** |

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Gorwariodd y gwasanaeth yma gan £890k (30.63%) ar alldro, sy'n unol â'r rhagolwg gorwariant o £878 (31.23%) yn chwarter 3. Y prif feysydd o orwariant yw : costau all-sirol £280k; Cludiant Ysgol £329k a gorwariant Addysg Ganolog arall £235k.

**3.1.1.2** Mae gan all-sirol (yn cynnwys Addysg heblaw yn yr ysgol – EOTAS) orwariant ar ddiwedd y flwyddyn o £280k. Cyllideb a arweinir gan y galw yw hwn, gyda'r elfen All-sirol o £135k oherwydd cynnydd yn lleoliadau all-sirol o plant mewn gofal. Mae'r elfen Addysg heblaw yn yr Ysgol £164k bellach wedi dod yn rhan o'r strategaeth newydd AAA ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd ers Medi ond mae wedi parhau i gael costau cymynrodd disgyblion na ddarparwyd ar eu cyfer yn y strategaeth newydd.

**3.1.1.3** Mae gan gostau cludiant ysgol hanes o orwario ac mae yn gyllideb arall sy'n cael ei arwain gan y galw. Y sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol yma yw gorwariant o £329k. Ar hyn o bryd, fe weithredir 'System Cludiant One' gyda'r disgwyliad o liflinio y teithiau i leihau'r costau cyfredol.

**3.1.1.4** Gwelodd Addysg Ganolog orwariant yng nghyllideb integreiddio Ysgolion Uwchradd o £47k, sydd eto'n gyllideb a arweinir gan y galw, gorwariant o £22k oherwydd costau diswyddo yn ymwneud â'r Strategaeth ar y Cyd AAA, a chostau unwaith-ac-am-byth £156k yn sefydlu'r bartneriaeth newydd. Tangyflawnwyd incwm yn nhocynnau bws ôl 16, a arweiniodd at orwariant o £28k, ac yng nglwb Gofal Plant cyn-ysgol a arweiniodd at orwariant o £59k. Mae costau ymgynghoriaeth hefyd dros y gyllideb o £22k, oherwydd ail-strwythuriadau o fewn yr adran sydd wedi golygu fod ymgynghorwyr wedi bod yn cyflawni rolau hanfodol yn ystod y cyfnod trosiannol.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Tanwariodd y gwasanaeth yma £144k (10.95%) ar alldro. Cododd y mwyafrif o'r tanwariant £139k yma o fewn y Gwasanaeth Llyfrgell lle parhaodd swyddi i fod yn wag ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad a'r ail strwythuro bellach wedi eu cwblhau a dylid defnyddio'n llawn y cyllidebau staff yn y flwyddyn i ddod. Roedd tanwariant o £34k ar gyllidebau cyffredinol oedd dros ben o ailstrwythuro Llyfregelloedd a Diwylliant a chefnogi'r amgueddfeydd a safleoedd. Roedd gorwariant o £8k ar gyfer y gwasanaethau Archifau oedd i'w briodoli i gyflogau ychwanegol ar gyfer bylchau rheoli yn y safleoedd twristiaeth na chafodd eu allanoli yn ôl y disgwyl.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £215k (0.95%) gan y gwasanaeth ar alldro, sydd ychydig yn wahanol i'r alldro a ragolygwyd yn chwarter 3 o orwariant £59k (0.26%).

**3.2.2** Yr elfennau o fewn yr amrywiaethau alldro yw :-

- Gwasanaethau i'r Henoed: tanwariant o (£202k);
- Anableddau Corfforol : gorwariant o £223k;
- Anableddau Dysgu : gorwariant o £481k;
- Iechyd Meddwl : gorwariant o £109k;
- Uned Ddarparu: tanwariant o (£224k); a
- Rheolaeth a Chefnogaeth : tanwariant o (£173k).

**3.2.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yn Anableddau Corfforol, Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae hyn oherwydd nifer fechan o leoliadau arbenigol cost uchel sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion cymhleth y Defnyddwyr Gwasanaeth yma. Yn ogystal, bu cynnydd yn y galw dros y chwarter olaf.

**3.2.4** Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i wrthbwyso'r gorwariant drwy leihau gwariant yn y meysydd mae ganddo fwyaf o reolaeth drostynt. Roedd tanwariant o £224k yn yr Uned Ddarparu mewnol a tanwariant o £173k yn Rheolaeth a Chefnoaeth.

**3.2.5** Mae oddeutu 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei reoli gan y galw amdano. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus ar ragfynegi costau'r dyfodol o'r gyllideb yma a arweinir gan y galw. Fe seilir y rhagfynegiant diwedd blwyddyn a gynhyrchir bob diwedd mis ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am bob lleoliad oedolyn. Gwneir hyn hi'n anodd iawn i ragfynegi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a gall arwain at symudiad mawr o un cyfnod i'r llall i geisio darogan costau'r gyllideb hon sy'n dibynnu ar y galw.

**3.2.6** Cyflwynwyd bidiau grant llwyddiannus i Gronfeydd Gofal Canolraddol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer Anableddau Dysgu ac yn benodol i gefnogi dilyniant defnyddwyr gwasanaethau i wasanaethau gwahanol, o bosib llai costus, gan gynnig gwell canlyniadau iddynt. Yn ychwanegol i hyn, mae'r adran yn ymgysylltu ar gyfnod o gyd-gynhyrchu gyda darparwyr gwasanaethau byw â chefnogaeth, gyda'r bwriad o newid sut byddai canlyniadau yn cael eu cwrdd ar gyfer unigolion o fewn yr amgylchedd yma. Eu nod yw i weithio hefo defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr i gefnogi eu dilyniant, defnydd dychmygus o dechnoleg a gofal a rennir i ymateb i newidiadau yn incwm Cefnogi Pobl yn 2017/18 a thu hwnt.

**3.2.7** Yn ymarferol, mae tueddiadau demograffic esgynnol parhaus yn rhoi pwysau ar nifer o feysydd cyllidebol yr adran. Gwelwyd rhywfaint o lwyddiant yn rheoli'r galw. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r pwysau yma, yn enwedig yng nghyd-destun cyfnod y gaeaf, a grant ychwanegol a dderbyniwyd, wedi cynorthwyo'r swyddogaeth yn arw i gyrraedd y sefyllfa yma.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Gorwariodd y gwasanaeth £1,778k (21.44%) ar alldro, sy'n unol â'r hyn adroddwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol. Y gorwariant mwyaf yw ar Blant sy'n derbyn gofal, sydd wedi gorwario £1,920k. Mae hwn yn faes a arweinir gan y galw. Mae'r £1,920k yn cynnwys gorwariant ar Ofalwyr Maeth o £224k, Lleoliadau All-sirol o £942k a Lleoliadau Heb for yn rhai Safonol o £775k.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyraethau a gyfarwyddir gan y llys, e.e. asesiadau llety preswyl / llety â chymorth i rieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn dibynnu ar y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn mynnu bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn achosion ac mae hynny hefyd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r timau.

**3.3.4** Mae'r Gwasanaethau Plant wrthi'n cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd a bydd y ffocws ar Ymyrraeth Cynnar ac Ymyrraeth Ddwys. Mae'r strwythur newydd yn canolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi plant i barhau i fyw yn eu cartrefi yn ddiogel. Bydd adnoddau ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer y prosiect Trothwy Gofal o gymorth i gefnogi hyn ond bydd yn cymryd amser. Y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol yw'r rheswm pennaf pam fo'r gwasanaeth yn gorwario. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 72% (47/81) yn nifer y plant sy'n destun Gorchmynion Gofal Llawn dros y 3 blynedd ddiwethaf. Cost blynyddol lleoliad preswyl ar gyfartaledd yw £220k.

**3.3.5** Er mwyn lliniaru'r gorwariant ar y lleoliadau hyn, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer 2017/18 ac ymhellach sy'n cynnwys: adolygu'r plant/pobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd; ceisio cynyddu'r dewis o leoliadau sydd ar gael ar yr Ynys; cefnogi plant i ddychwelyd i'w cartrefi pan mae'n ddiogel i wneud hynny ac adolygu'r cyllid sy'n cael ei gymeradwyo ar gyfer lleoliadau preswyl. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth yn awr gymeradwyo'r holl leoliadau preswyl.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Ar yr alldro, roedd y gwasanaeth wedi gorwario £7k (0.68%). Bu'r gorwariant godi oherwydd cynnydd yn y gwariant o fewn y ddarpariaeth ddigartrefedd. Mae'r gwariant net wedi codi o £43k yn 2016/17 i £161k yn 2017/18. Nid mater i Ynys Môn yn unig yw'r cynnydd yma yn y ddarpariaeth, gan fod cynnydd yn y galw a chostau cynyddol yn Awdurdodau arall ar draws Cymru. Mae'r gyllideb am 2018/19 wedi cael ei chynnyddu I Digartrefedd yn dilyn mwy o arian gan Llywodraeth Cymru. Lliniarwyd y gorwariant yma gan tanwariant o fewn diwygio lles yn ogystal â'r gallu i wrthbwyso amser swyddogion i grantiau penodol.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (gan gynnwys Arforol a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd gorwariant o £17k (0.87%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn sy'n cymharu hefo'r rhagolwg o orwariant o £30k (1.55%) yn y gwasanaeth yn chwarter 3.

**3.5.1.2** Roedd tanwariant o £85k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth. Mae'r tanwariant ar staffio oherwydd swyddi gweigion ac incwm ychwanegol a gafodd ei adennill o raglenni mawr.

**3.5.1.3** Nid oes amrywiad yn y gwasanaeth Arforol, mae'r tanwariant a gyflawnwyd o £75k wedi cael ei drosglwyddo i'r arian wrth gefn a glustnodwyd i ail-baentio Pier Biwmares. Mae'r £75k wedi ei wneud i fyny o danwariant ar staff tymhorol ac incwm a or-gyflawnwyd.

**3.5.1.4** Roedd yr adain Hamdden wedi gorwario £102k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae incwm y canolfannau hamdden, gan gynnwys incwm y caffis, yn parhau i achosi pwysau oherwydd mae'r gwasanaeth yn ei chael yn fwyfwy anodd i gyrraedd targedau incwm. Roedd Incwm y Canolfannau Hamdden wedi tan gyflawni o £92k, tra roedd gorwariant ychwanegol o £35k ar Gaffis y Canolfannau Hamdden.

#### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £18k (0.81%) yn y gwasanaeth ar alldro. Mae hyn oherwydd gorwariant mewn rhai mannau a tanwariannau digolledu mewn mannau eraill. Mae'r gorwariannau o £17k mewn perthynas a rheolaeth cynllunio a wariwyd ar ddatblygu technoleg a chostau ymgynghori a oedd yn fwy nag oedd y gyllideb wedi darparu ar ei gyfer. Ni fydd y Grant Cynllunio ac Amgylcheddol yn cael ei dderbyn gan y swyddogaeth bellach a bydd y gorwariant o £35k yn parhau hyd nes bydd cyllid ychwanegol ar gael o fan arall yng nghyllidebau'r swyddogaeth. Yn Iechyd yr Amgylchedd roedd cost unwaith ac am byth sy'n golygu ei fod wedi gorwario £15k ac incwm o fewn y Marchnadoedd £18k a Cefn Gwlad ac Arfordir £9k ddim wedi cyfarfod eu targedau.

**3.5.2.2** Gwelir y prif danwarianau i'r swyddogaeth yng Ngweinyddu Cynllunio £21k, Rheolaeth Adeiladu £28k, Gweithredu a Chadwraeth £26k, AONB £36k a Trwyddedu £22k, roedd hyn o ganlyniad i swyddi gwag, chyflenwadau a gwasanaethau a gwell incwm.

**3.5.2.3** Cafodd gwaith Cynnal a Chadw a Iechyd a Diogelwch hanfodol ei orffen yn chwarter 4 yn cyfateb i £43k dyma'r prif reswm am y tanwariant is nag oedd wedi ei ragweld yn chwarter 3.

**3.5.2.4** Mae incwm Ffioedd Cynllunio mewn perthynas Datblygiadau Mawr wedi cael eu rhoi yn yr arian wrth gefn, cafodd £351k ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18, gan adael balans o £529k yn yr arian wrth gefn.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant o £100k (1.56%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n wahanol i'r gorwariant o £86k (1.31%) a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Yn ystod y chwarter olaf mae'r gwasanaeth wedi gweithio i leihau gwariant er mwyn ysgafnhau'r baich ar yr Awdurdod ac wedi gweld cynnydd yn eu hincwm, er enghraifft, mewn perthynas â Chau Ffyrdd. Derbyniwyd grant o £75k ym mis Ebrill 2018 gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio ar gyfer costau gwaith cynnal a chadw eithriadol dros y gaeaf yn ystod 2017/18. Defnyddiwyd y grant hwn ar gyfer y cynnydd mewn costau graeanu.

**3.6.1.2** Derbyniwyd dau grant ar wahân o £375k a £150k gan Lywodraeth Cymru fel cyfraniad tuag at y costau atgyweirio yn dilyn y llifogydd ym mis Tachwedd 2017. Defnyddiwyd y grant o £150k yn y cyllidebau cynnal a chadw Priffyrdd a defnyddiwyd y £375k yn erbyn gwariant sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r llifogydd, lle'r oedd y costau yn £593k. Y balans i'w ariannu gan yr Awdurdod o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol oedd £218k . Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith bod angen defnyddio swm o arian o'r balansau cyffredinol i wneud i fyny am y diffyg fel rhan o'r adroddiad ar osod y gyllideb. Disgwylir y bydd rhywfaint o wariant yn digwydd yn ystod 2018/19.

**3.6.1.3** Mae'r gronfa wrth gefn a grëwyd ar gyfer gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf yn dilyn penderfyniad y pwyllgor gwaith wedi cynyddu £21k ac mae'r balans bellach yn £54k.

**3.6.1.4** Mae yna nifer o orwariannau a thanwariannau sy'n gwneud iawn am y naill a'r llall, a'r gorwariant mwyaf arwyddocaol oedd £60k ar Ddylunio Gwaith Cynnal a chadw a £60k ar y contract cynnal a chadw newydd. Mae'r tanwariant mwyaf yn yr Adain Gwaith Stryd sydd wedi tanwario £209k o ganlyniad i gynhyrchu incwm.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd y gwasanaeth gwastraff â thanwariant alldro o £63k (1.02%). Mae hyn ychydig yn wahanol i'r tanwariant alldro o £20k (0.32%) a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 3. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r swm terfynol i'w briodoli'n bennaf i welliant yn y lefel o gynhyrchu incwm dros y chwarter diwethaf.

**3.6.2.2** Roedd tanwariant o £88k mewn perthynas â Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn; y prif ffactorau oedd tanwariant a'r eiddo a chostau cludiant, sef £46k ac yn ogystal, cynhyrchwyd £49k mwy o incwm na'r disgwyl. Cafwyd tanwariant o £65k ar Gynhyrchu Trydan ym Mhenhesgyn, roedd hyn o ganlyniad i'r tanwariannau ar y cyflenwadau a'r gwasanaethau, a oedd yn gwneud iawn am y ffaith nad oedd y targed incwm wedi cael ei gyflawni. Roedd gorwariant o ran costau casglu gwastraff am y flwyddyn yn £93k oherwydd y casglwyd mwy o wastraff ar gyfer ei ailgylchu.

**3.6.2.3** Mae'n bwysig nodi y cynhaliwyd ymarferiad ail-alinio cyllidebau yn ystod 2017/18 a'i weithredu yn ystod ymarfer gosod cyllideb 2018-19.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Cafwyd gorwariant o £55k (5.09%) yn y Gwasanaethau Eiddo yn yr alltro. Rhagwelir i'r gwasanaeth fod wedi tanwario o £7k (0.61%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwahaniaeth rhwng yr alldro a ragwelwyd â'r alltro gwirioneddol o ganlyniad i'r unedau ddod yn wag, y stoc bysgod yng Nghaergybi bellach ddim yn cael ei feddiannu ac mae ad-daliadau wedi cael eu talu allan oedd ddim yn rhan o'r rhagfynegiad gwreiddiol gan eu bod wedi digwydd yn ystod y chwarter olaf. Mae'r gorwariant ar y glanhau yn cynyddu o'r ragfynegiad o £14k i £ 56k yn union, sef canlyniadau uniongyrchol o weithredu newidiadau yn hwyrach na'r dyddiad a ragwelir.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Tanwariodd y swyddogaeth Drawsnewid gan £174k (4.46%) ar ddywedd y flwyddyn.

**3.7.1.1.** Gorwariodd yr adain TGCh £45k ar alldro. Gorwariodd cyllideb Anglesey Connected gan £104k. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad yniad i ostyngiad yn niferoedd defnyddwyr y rhwydwaith, sy'n arwain at ostyngiad yn y gallu i ad-ennill costau gwasanaeth gan eraill. Roedd gorwariant ar gostau staffio, sydd hefyd yn cynnwys y£42k am ddefnydd o staff asiantaeth. Fodd bynnag, oherwydd y nifer o brosiectau ymgynmerwyd gan yr adran yn ystod y flwyddyn, mae wedi bod yn bosib i adennill amser staff i'r rhain. Arweinodd hyn at orwariant cyffredinol sy'n llai na'r hyn ragwelwyd yn chwarter 3.

**3.7.1.2** Tanwariodd y swyddogaeth AD £61k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd tanwariant ar hyfforddiant canolog o £25k a tanwariant o £32k oherwydd swyddi gwag yn y swyddogaeth.

**3.7.1.3** Tanwariodd Trawsnewid Corfforaethol £158k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd nifer o swyddi gwag £95k ac arbedion ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd £81k. Yr unig faes o dan bwysau o fewn Trawsnewid yw Cyswllt Môn, a orwariodd £19k.

## 3.8 Adnoddau (heb gynnwys Budd-daliadau a roddwyd)

**3.8.1** Mae cyllideb y Swyddog\eth Adnoddau £3k (0.10%) o dan y gyllideb ar alldro. Rhagwelwyd y byddai'r swyddogaeth yn gorwario £44k (1.57%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn Chwarter 3. Gwelwyd pwysau cyllidebol o £45k ar y swyddogaeth yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau, oherwydd bod y Grant Budd-daliadau Tai yn is na'r hyn gyllidebwyd o £48k a diffyg yn yr incwm o gostau Llys o'r Dreth Gyngor a threthi Busnes £51k. Fodd bynnag, oherwydd ail-strwythuriad, roedd tanwariant yn y cyllidebau staffio o £32k a thanwarianau bach arall a ostyngodd y gorwariant cyffredinol.

**3.8.2** Gorwariodd Rheolaeth Cyllid gan £52k, yn bennaf oherwydd anhawster i gyflawni'r targed arbedion. Tanwariodd Gwasanaeth Cyfrifeg gan £13k oherwydd tanwariant ar staffio o £50k. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn gan nifer o bwysau cyllidebol, gyda'r mwyaf o'r rhain yn daliadau banc £27k a chostau postio £9k.

**3.8.3** Tanwariodd yr adain Caffael gan £72k. Y prif ffactorau oedd oherwydd arbedion cyllideb staffio o £6k, tanwariant yn y cyllidebau canolog ar gyfer offer swyddfa, llungopiwyr a dodrefn o £62k. Tanwariodd Archwilio Mewnol £14k oherwydd swydd wag.

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Ar alldro, mae'r Swyddogaeth wedi gorwario £181k (11.55%), sy'n welliant ar yr alldro ragwelwyd yn Chwarter 3 o orwariant o £257k (15.91%). Mae hyn yn bennaf oherwydd gorwariant o £266k ar ffioedd asiantaeth oherwydd absenoldeb mamolaeth a salwch tymor hir. Fe wrthbwysir y gost llawn o'r rhain gan danwariant o £91k ar staffio a gwarged ar incwm pridiannau tir o £35k. Mae'r swydd undeb llafur na chyllidebwyd ar ei chyfer hefyd yn cynyddu'r pwysau cyllidebol gan £9k. Gorwariodd Gwasanaethau Democrataidd £21k o'i gymharu â'r gorwariant o £55k a ragwelwyd yn ystod y chwarter diwethaf oherwydd grant llywodraeth na chyllidebwyd. Roedd gorwariant o £45k yng ngwasanaethau pwyllgorau, yn bennaf oherwydd costau'r llungopïwr corfforaethol ni ellir ei adennill o wasanaethau bellach yn dilyn penderfyniad i ganoli'r costau. Fe ail-alinwyd y cyllidebau yma ar gyfer 2018/19.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Tanwariodd y swyddogaeth gan £207k (9.35%) ar alldro. Mae'r cyfanswm tanwariant oherwydd tanwariannau yng nghyfraniadau pensiwn i Gyngor Gwynedd o £83k yn ogystal â disgowntiau pensiwn o £72k, a sicrhawyd y Cyngor gan dalu'r cyfraniad ar gyfer y diffyg 3 mlynedd yn y gronfa mewn un lwmp-swm yn hytrach nag fel taliad misol. Roedd tanwariant ar y Ffioedd Crwner o £69k. Yn ogystal, mae dychweliad o £28k incwm a ddarparwyd yn flaenorol fel dyled drwg a thalwyd incwm unwaith-ac-am-byth o £44k i'r Cyngor yn dilyn cwblhau'r dirwyn i ben o Gwmni Gwastraff Môn Arfon. Roedd gwariant lleiaf posibl o fewn yr adain risg gorfforaethol a arweiniodd at danwariant o £39k; mae'r gyllideb wedi ei leihau ar gyfer cyllideb 2018/19.

**3.10.2** Roedd pwysau cyllidebol ar gwnsela staff o £26k gan nad oedd cyllideb ar gyfer y gwariant yma, yn ogystal ag anfoneb cynhennus mewn perthynas â'r Archwiliad Allanol ar y Grant Cymhorthal Tai. Mae newidiadau cyfrifo i'r ddarpariaethau o fewn Yswiriant Corfforaethol a Penhesgyn wedi arwain at bwysau net i'r swyddogaeth o £109k.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Tanwariodd y swyddogaeth £81k (11.0%) ar alldro, sy'n unol â'r rhagolwg o £80k (10.52%) ar ddiwedd Chwarter 3. Mae'r tanwariant yn £81k oherwydd arbedion yn codi o ail-strwythuro Rheolaeth Strategol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a roddwyd)

**4.1** Mae Cyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a roddwyd, wedi tanwario gan £655k (4.02%) ar ddiwedd y flwyddyn. O ganlyniad i ostyngiad yn nifer y llwyth achosion o 6,233 i 5,998, roedd tanwariant o £258k yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Bydd arian annisgwyl o £84k yn dilyn Archwiliad Grant Budd-daliadau 2015/16 yn cyllido'r diffyg o £80k yn grant yr AGP oherwydd fod cyfraddau Gwely a Brecwast Digartref yn uwch na lwfans yr AGP. Nid yw'r cais grant AGP terfynol ar gyfer 2017/18 wedi ei gyflwyno eto a gall, felly arwain at newidiadau i'r ffigyrau dros dro. Tanwariodd y Taliadau Tai Dewisol gan £20k oherwydd y nifer o geisiadau dderbyniwyd. Roedd tanwariant o £449k ar gostau cyllido cyfalaf. Roedd £253k o hyn oherwydd arbedion wnaed o fenthyca mewnol, oedi ail-gyllido benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cyd-ymffurfio â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18. Cyflawnwyd gwarged o £16k ar log derbyniadwy oherwydd cynnydd Banc Lloegr yn y cyfradd sylfaen o 0.25% i 0.50% a buddsoddi ym muddsoddiadau cymeradwy oedd yn cynnig y raddfa llog uchaf. Cyflawnwyd arbediad o £180k ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) oherwydd newid yn null cyfrifo a gyflwynwyd yn Addasiad A i'r cyfrifo MRP. Mae hyn yn addasiad a ganiateir ac fe'i argymherllwyd gan Ymgynghorwyr Allanol y Cyngor ar Reoli Trysorlys yn eu adolygiad diweddar o Bolisi MRP y Cyngor.

**4.2** Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â'r cyllidebau digwyddiadau annisgwyl ar alldro. Cymeradwywyd cyfanswm o £1.380m fel cyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl fel rhan o gyllideb 2017/18. Mae hyn yn cynnwys targed arbedion o £300k o ddiswyddiadau gwirfoddol. Roedd tangyflawni o crafangu'n ôl £227k o'r arbedion ar gyfer diswyddiadau gwirfoddol. Mae £1,486k wedi cael ei wirio i/o wasanaethau i gyllido prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Roedd gorwariant o £313k yn y gyllideb ddigwyddiadau annisgwyl ar gyfer Tâl a Graddfeydd oherwydd bod nifer uwch na'r disgwyl o staff yn derbyn taliad diswyddo. Mae hyn yn ychwanegol at y £250k a gymeradwywyd eisoes ac a ariennir o'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer costau'n ymwneud â diswyddiadau. Fodd bynnag, bu tanwariant o £330k ar y Cyllidebau Clustnodedig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd oedi yn y Prosiect Edge of Care a rheolaeth gyllideb effeithiol yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae tanwariant hefyd yn cael ei gyflawni ar Etholiadau'r Sir £53k yn ogystal â £40k Argyfyngau Cyffredinol a Cost Newid £11k. Cyfanswm y gorwariant yw £106k.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Gronfa'r Dreth Gyngor ei phenderfynu gan ddefnyddio'r ddyled a amcangyfrif a fydd yn cael ei chasglu ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig ac yn seiliedig ar ffigwr sail y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2016. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd yn ystod y blynyddol blaenorol, ymrwymiadau yn codi o'r blynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgownt person sengl ac ati), newidiadau i sail dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni fedrir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae'r sefyllfa alldro ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor yn dan-gyflawniad o £66k sy'n wahanol i'r ffigwr gor-gyflawniad o £334k yn y chwarter blaenorol. Mae'r newid hwn wedi digwydd yn sgil yr erydiad yn sail y dreth oherwydd caniatawyd nifer uwch o eithriadau yn y chwarter olaf ac oherwydd na chafodd y cynnydd a ragwelwyd yn y debyd yn dilyn yr adolygiad o'r disgowntiau ar gyfer pobl sengl ei gyflawni yn 2017/18. Bydd yr adolygiad o ddisgowntiau i bobl sengl bellach yn cynhyrchu debyd ychwanegol yn 2018/19.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2017/18

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £1.954m eu tynnu o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2017/18 a chanfuwyd £300k o arbedion ychwanegol o ddiswyddiadau gwirfoddol fel y dywedwyd uchod. Mae £1.555m o arbedion wedi cael eu cyflawni, fodd bynnag, nid yw £399k wedi cael eu cyflawni. Roedd y diffyg mwyaf sylweddol o ran arbedion yn y gwasanaeth Dysgu lle roedd y gwasanaeth £242k yn fyr o'r targed oherwydd yr oedi mewn perthynas â'r gostyngiad yn nifer yr oriau glanhau a methiant i drosglwyddo Melin Llynnon. Gwelir dadansoddiad llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 a chafodd £983k ei neilltuo i brosiectau unigol. Hyd yma, mae £354k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn yn ystod 2017/18. Mae'r holl brosiectau ar wahanol gamau o ran eu datblygiad, gyda rhai'n nes at gael eu cwblhau nag eraill. Mae manylion llawn am wariant a chynnydd pob un o'r rhaglenni i'w gweld yn Atodiad CH. Os nad yw'r prosiectau'n cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau yn 2018/19 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael yn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £1,185k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, cafodd y costau hyn eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn darparu gwasanaethau llanw ar gyfer staff a oedd yn sâl ac roedd £755k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant, yn bennaf tra yr oedd y gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd yr adran Adnoddau £104k ar staff Asiantaeth. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â'r £53k a wariwyd ar y prosiect Cyflogres ac AD Northgate a gaiff ei gyllido a gronfa wrth gefn benodol. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £227k ar asiantiaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Caiff y rhan fwyaf o'r swm hwn, 59%, ei ariannu o grant allanol. Gwelir y manylion llawn yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £486k ar ymgynghorwyr yn ystod Chwarter 4. Gwariwyd cyfanaswn o £2,139m ar ymgynghorwyr rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Gwelir y crynodeb fesul adran yn Atodiad E.

**8.3** Oherwydd yr angen i wneud gwaith cyfrifeg arall, gan gynnwys cwblhau'r datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18, ni fu modd cwblhau'r dadansoddiad llawn o gostau ymgynghori. Cyflwynir y wybodaeth hon i'r Pwyllgor pan fydd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2017/18 yn cael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf.

## 9. Casgliad

**9.1** Mae gorwariant o £1.762m ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn unol â'r disgwyliad a'r adroddiadau a gyflwynwyd drwy'r flwyddyn. Mae £2.351 o hyn ar gyllidebau gwasanaeth sy'n cynnwys nifer o or-wariannau a than-wariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau yn debyg i 2016/17 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn ceisio gostwng lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd tanwariant o £0.655m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a hynny'n rhannol oherwydd y cafodd y dull o weithio allan y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ei newid. Mae'r gorwariant hwn yn 1.39% o gyllideb net y Cyngor. Mae'n destun pryder na fu modd cadw gwariant refeniw'r Cyngor o fewn y gyllideb yn 2017/18 ond mae llwyddiant y Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb ac adeiladu cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn y blynyddoedd blaenorol wedi caniatáu i'r Cyngor gyllido'r gorwariant tra'n parhau i gynnal lefel dderbyniol o Falansau Cyffredinol. Fodd bynnag, os na fedr gwasanaethau roi sylw i rai o'r anawsterau ariannol y maent yn eu hwynebu yn ystod 2018/19, mae risg sylweddol y bydd gorwariant pellach yn 2018/19 a fydd yn erydu balansau cyffredinol y Cyngor i lefel annerbyniol a bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt mewn cyllidebau yn y dyfodol fel y gellir cynyddu cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r lefelau gofynnol.

**9.2** Mae'n bosib y bydd yr adroddiad hwn ar y canlyniadau dros dro yn newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei rhwng rŵan a'r adeg yr adroddir ar y Datganiad Cyfrifon terfynol ym mis Medi.

## Canlyniadau Refeniw Rhagdybiedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 4

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei datganoli i'r Ysgolion | 44,064 | 44,064 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 2,809 | 3,722 | 913 | - 23 | 890 |
| Diwylliant | 1,364 | 1,227 | -137 | -7 | -144 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,541 | 22,687 | 146 | 68 | 214 |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,293 | 10,075 | 1,782 | -5 | 1,777 |
| | | | | | |
| **Tai** | 1,034 | 1,087 | 53 | -45 | 7 |
| | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | |
| Priffyrdd | 6,633 | 6,572 | -61 | -39 | -100 |
| Eiddo | 1,172 | 1,277 | 105 | -50 | 55 |
| Gwastraff | 6,294 | 6,083 | -211 | 148 | -63 |
| | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 2,006 | 2,069 | 63 | -46 | 17 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,269 | 2,260 | -9 | -9 | -18 |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Trawsnewid** | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,214 | 1,140 | -74 | 12 | -61 |
| TGCh | 1,817 | 1,861 | 44 | 1 | 45 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 901 | 744 | -158 | 0 | -158 |
| | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,933 | 3,096 | 163 | -166 | -3 |
| | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,571 | 1,752 | 181 | 0 | 181 |
| | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 2,212 | 2,005 | -207 | 1 | -207 |
| | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 737 | 656 | -81 | 0 | -81 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **109,864** | **112,377** | **2,514** | **-162** | **2,351** |
| | | | | | |
| Ardollau | 3,335 | 3,333 | -2 | 0 | -2 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,060 | 7,611 | -449 | 0 | -449 |
| Addasiad Corfforaethol ar gyfer Dibrisiant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhyddhad Ardrethol Dewisol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | -106 | 0 | 106 | 0 | 106 |
| Cyllido a defnydd o Arian wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogaeth CRT | -678 | -760 | -82 | 82 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,682 | 5,372 | -310 | 0 | -310 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **16,293** | **15,556** | **-737** | **82** | **-655** |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Gwasanaeth / Swyddogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyfanswm 2017/18 | **126,157** | **127,933** | **1,775** | **80** | **1,696** |
| - | | | | | |
| **Cyllido 2017/18** | | | | | |
| Trethi Annomestig | -23,002 | -23,002 | -0 | 0 | -0 |
| Y Dreth Gyngor | -33,505 | -33,577 | -72 | 138 | 66 |
| Grant Cymorth Refeniw | -69,650 | -69,650 | -0 | 0 | -0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2017/18** | **-126,157** | **-126,229** | **-72** | **138** | **66** |
| | | | | | |
| **Net** | 0 | 1,704 | 1,703 | 58 | 1,762 |

*** NODYN – mae'r ffigyrau uchod wedi cael eu rowndio i fyny i'r mil agosaf.**

## CRYNODEB O'R SEFYLLFA ARIANNOL MEWN PERTHYNAS Â'R CYLLIDEBAU WRTH GEFN YN CHWARTER 3 2017/18

| | Cyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y gweddill sydd heb ei ymrwymo |
|---|---|---|---|
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 283,635 | (243,183) | 40,455 |
| Gwella | - | - | - |
| Tâl a Graddfeydd | 200,000 | (512,560) | (312,560) |
| Cost Newid | 92,000 | (80,740) | 11,260 |
| Ardoll Prentisiaethau | 290,000 | (290,000) | - |
| Etholiadau'r Sir | 150,000 | (97,460) | 52,540 |
| Trothwy Gofal | 240,000 | (240,000) | - |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | 425,000 | (95,000) | 330,000 |
| **Cyfanswm y cyllidebau wrth gefn** | 1,680,635 | (1,558,940) | 121,695 |
| | | | |
| **Targed Arbedion Diswyddo Gwirfoddol** | (300,000) | 72,540 | (227,460) |
| | | | |
| **Cyfanswm y Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,380,635 | (1,486,400) | (105,765) |

## ADOLYGIAD O’R PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED 2017/18

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-wyd<br>£ | Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig)<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2017/18<br>£ | Gwariant hyd yma<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2017/18<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig (EDMS) ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 170,260 | 158,700 | 11,560 | Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant bychan yr EDMS at dybio y daw’r gwaith rheoli prosiect i ben ym Mehefin 2018 yn unol â’r disgwyliad ond efallai y bydd y tanwariant yn gostwng oherwydd costau sganio ychwanegol ynghyd â chostau annisgwyl oherwydd oedi gyda TG. O’r herwydd, bydd angen yr arian sydd ar ôl yn ystod 2018/19. |
| TG | Mynegai Tir ac eiddo Lleol LLPG | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 10,749 | 15,261 | -4,512 | Y prosiect wedi ei gwblhau – y cyfan sydd angen ei wneud yw cytuno ar yr ymrwymiadau o safbwynt costau refeniw ar iExchange fel rhan o’r fid wreiddiol. Bydd y gorwariant yn cael ei ariannu gan y gwasanaeth. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda’r Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 255,000 | 195,000 | 33,724 | 161,276 | Mae’r datrysiad rheoli Gwastraff yn fyw ynghyd â nifer o wasanaethau ar-lein eraill. Hyfforddiant wedi cael ei gynnal yn y gwasanaethau ac integreiddiadau eraill wedi eu rhaglennu. Mae’r dechnoleg graidd bellach wedi cael ei sefydlu sy’n golygu y gellir ychwanegu mwy o wasanaethau ar-lein ac mae cryn ddiddordeb wedi cael ei fynegi gan wasanaethau megis Iechyd yr Amgylchedd a Thai. Bydd taliadau gan gyflenwyr a gadwyd yn ôl mewn perthynas â cherrig milltir prosiect yn cael eu rhyddhau yn o fuan felly bydd angen y cyllid yn 2018/19 |
| TG / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy’r Ap | 27,000 | 27,000 | 27,000 | 6,000 | 21,000 | Mae’r gwaith o integreiddio’r Porth Talu wedi ei gwblhau ar y CRM ac AppMon, mae oedi ar ochr Capita yn dal y prosiect yn ôl. Bydd angen y cyllid yn 2018/19. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-wyd £ | Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig) £ | Dyraniad ar gyfer 2017/18 £ | Gwariant hyd yma £ | Cyllideb Weddilliol 2017/18 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwneud systemau cynllunio'n fwy gwydn | Systemau Cynllunio newydd wedi eu hawtomeiddio | 118,000 | 118,000 | 118,000 | 28,437 | 89,563 | Mae system rheoli amser SAGE wedi cael ei phrynu ac mae wrthi'n cael ei gweithredu. Mae'r prosiect digideiddio'n mynd rhagddo a'r systemau'n cael eu defnyddio a'u profi ar gyfer eu hintegreiddio i'r system newydd. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gyda thempledi'r holl lythyrau cynllunio. Dyddiadau hyfforddiant wrthi'n cael eu trefnu a'r gwaith mapio GIS yn mynd rhagddo yn dda. Mae oddeutu 3,000 o ffeiliau a dogfennau wedi cael eu sganio hyd yma. Mae £13k o'r gyllideb refeniw wedi cael ei ddefnyddio yn 2017/18 i gyllido'r swyddog sydd newydd gael ei benodi. Bydd angen y balans sy'n weddill yn 2018/19 i ariannu'r swydd. |
| Adnoddau | Gwella systemau casglu incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) cysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 150,000 | 150,000 | 59,078 | 90,922 | Mae gwaith i brynu system rheoli arian Capita wedi'i huwchraddio wedi'i chwblhau. Mae cynllun prosiect wedi'i ddatblygu a fydd yn arwain at gyflwyno modiwlau newydd a gwelliannau i'r system rheoli arian parod sy'n cael ei chyflwyno yn ystod 2018/19. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu 'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd | 72,000 | 72,000 | 67,000 | 52,259 | 14,471 | Mae angen y cyllid i ariannu costau parhaus sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn 2018/19. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo yn dda a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2019.Mae £15k wedi cael ei gymryd o'r gyllideb wreiddiol o £87k i greu prosiect i datblygu gwefan i'r Oriel. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwy-wyd £ | Swm a neilltuwyd (cyfanswm – nid blwyddyn 1 yn unig) £ | Dyraniad ar gyfer 2017/18 £ | Gwariant hyd yma £ | Cyllideb Weddilliol 2017/18 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio busnes | Gwefan i'r Oriel | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | Bydd y prosiect yn mynd ymlaen yn 2018/19. |
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 yn y flwyddyn gyntaf a £50,000 yn yr ail flwyddyn | 120,000 | 20,000 | 0 | 20,000 | Bydd angen cario'r arian drosodd i 2018/19. Mae'r gwaith wedi ei gysylltu i'r brosiect ehangach ar y wefan corfforaethol. Disgwylir iddo gael ei ddefnyddio'n llawn yn 2018/19. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 blynedd | 45,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Dim gwariant hyd yma oherwydd gohiriwyd recriwtio Swyddog Digidol Arweiniol hyd oni fydd y System Rheoli Cynnwys ar y We wedi cael ei gweithredu fel y gellir alinio'r holl Lwyfannau Digidol a chael y gorau allan o'r cyllid a glustnodwyd am 2 flynedd ar gyfer y swyddi dros dro. Mae angen cario'r arian drosodd i 2018/19 |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **828,009** | **353,729** | **474,280** | |

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2017/18

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2017/18 £'000 | Yn gyraeddadwy yn 2017/18 £'000 | Dim yn gyraeddadwy o bosib yn 2017/18 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 610 | 368 | 242 | Yn seiliedig ar nifer yr oriau glanhau a ddarperir gan yr adran Eiddo, dylid sicrhau £474k o'r arbediad yn y dyfodol a bydd gweddill yr arbediad yn cael ei dynnu o'r Gyllideb a Ddatganolwyd i'r Ysgolion fel toriad cyffredinol. Mae'r drefn i newid oriau gweithio'r glanhawyr wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl gan arwain at orwariant yn 2017/18, a gaiff ei gyllido o'r arian wrth gefn. Ni fydd modd cyflawni £40k o'r arbedion oherwydd nid yw'r Cyngor hyd yma wedi gallu trosglwyddo Melin Llynnon. Fodd bynnag, caiff hun ei liniaru oherwydd y gwnaed mwy o incwm mewn safleoedd treftadaeth eraill ac amgueddfeydd. Ni fydd modd cyflawni'r £13k sy'n gysylltiedig â dwyn y brydles yn Ynys Lawd i ben. Er bod y brydles wedi dod i ben, cafwyd costau i glirio'r safle, fodd bynnag, costau unwaith ac am byth yw'r rhain. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 187 | 179 | 8 | Mae oriau glanhau yn y tair canolfan hamdden bellach wedi cael eu gostwng o 55 i 30 yr wythnos ers Tachwedd 2017, fodd bynnag, rhagwelir diffyg o £3k o'r arbediad o £10k a gynigiwyd ar gyfer 2018/19. Mae gwaith i sicrhau'r arbediad o £5k ar allanoli caffi y ganolfan hamdden yn parhau i fynd rhagddo gydag Eiddo a bydd proses Gaffael yn cael ei chynnal ym mis Chwefror i geisio dod o hyd i ddarparwyr arall rwan bod y caffi wedi cau. Mae cynnydd o ran gwerthiannau'r peiriannau fendio ond ni fydd yn ddigon i gwrdd â'r gorwariant. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 339 | 264 | 75 | Rhagwelir na fydd modd cyflawni £6k o arbedion ar y contract gwastraff cyffredinol, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld tanwariant. Nid yw'r gwasanaeth ond yn debygol o gyflawni £16k o'r targed o £26k yn sgil allanoli toiledau cyhoeddus oherwydd diddordeb cyfyngedig gan drydydd partïon. Ni wyddys beth fydd yn cael ei gyflawni yn erbyn y £50k ar gyfer y Contract Cynnal a Chadw Priffyrdd oherwydd mae'n dibynnu ar y tywydd dros fisoedd y gaeaf. |
| Gwasanaethau Oedolion | 559 | 519 | 40 | Y rhan fwyaf o'r arbedion wedi eu cyflawni'n llawn. Nid yw'r arbedion a gynigiwyd drwy newidiadau i'r ddarpariaeth arlwyo mewn cartrefi gofal preswyl wedi eu gweithredu yn 2017/18. Mae'r arbedion o ddatblygu gwasanaethau arbennig i Garreglwyd yn unig ond wedi eu cyflawni'n rhannol oherwydd oedi cyn ail gofretru'r cartref a'r gwaith oedd angen ei wneud ar y cartref. Fodd bynnag, roedd yr arbedion wedi cael eu cyflawni o gyllidebau eraill o fewn yr ardran. Bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni o 2018/19 ymlaen. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2017/18<br>£'000 | Yn gyraeddadwy yn 2017/18<br>£'000 | Dim yn gyraeddadwy o bosib yn 2017/18<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Tai | 41 | 16 | 25 | Bu oedi o ran dechrau'r adolygiad o berfformiad ynni eiddo'r cyngor gan arwain at ddiffyg arbedion o £15k. Ychydig iawn o gyfleoedd a gafwyd i'r swyddog cartrefi gwag gynhyrchu incwm ffioedd drwy ail eiddo ac felly ni lwyddwyd i wneud arbedion eleni o £10k yn ystod y flwyddyn oherwydd materion amseru ond fe'i cyflawnir yn Ch1 2018/19. Fodd bynnag, gwnaed arbedion o gyllidebeu eraill o fewn y gwasanaeth ar gyfer 2017/18. Cyflawnwyd yr arbedion eraill yn llawn. |
| Trawsnewid | 79 | 79 | 0 | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2017/18. |
| Busnes y Cyngor | 18 | 18 | 0 | Disgwylir y bydd modd cyflawni’r holl arbedion o 2017/18. |
| Adnoddau | 121 | 112 | 9 | Cyflawnwyd arbedion staffio am 2017/18. Ni chyflawnwyd arbedion postio o £9k oherwydd nad oedd Ysgolion wedi cael mynediad i’r cyfleuster Amdanafi tan Ch4. |
| **Cyfanswm** | **1,954** | **1,555** | **399** | |

## COSTAU ASIANTAETH EBRILL – MAWRTH 2018

| | £ | Ariannwyd O | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | **13,811.72** | Cyllideb staffio nad oedd wedi ei defnyddio | Cwrdd â thargedau archwilio statudol |
| **Gwastraff** | 6,091.68 | Cyllideb Refeniw | Cefnogaeth gweinyddol yn yr Adran Wastraff oherwydd salwch yn yr adain |
| | 93,717.68 | Cyllideb Refeniw | Gweithgareddau ar Safle Allanol / Gwaeledd Tymor Hir / Ymddeoliad Staff. Staff ddim ar gael drwy Fatrics yr Uned AD. |
| | 133,634.21 | Cyllid Grant | Gweithredwyr Safle eu hangen oherwydd prinder staff contract i ymgymryd â gwaith ychwanegol a oedd yn gysylltiedig gyda chyflwyno'r casgliadau gwastraff pob tair wythnos a'r casgliad ychwanegol o ddeunydd ar gyfer ei ailgylchu. Staff ddim ar gael drwy Fatrics yr Uned AD. |
| | 19,137.05 | Cyllid Grant | Tasgau ychwanegol (codi sbwriel) yr oedd angen eu cyflawni yn y tymor byr yn ystod cyfnod yr haf rhwng Ebrill a chanol mis Hydref. Staff ddim ar gael drwy Fatrics yr Uned AD. |
| | **252,580.62** | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 185,844.19 | Cyllideb graidd, cyllideb staffio nad oedd wedi ei defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Llenwi swyddi gwag yn ystod yr ailstrwythuro |
| | 10,114.60 | Cyllideb graidd, cyllideb staffio nad oedd wedi ei defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Darn o waith penodol |
| | 535,968.44 | Cyllideb graidd, cyllideb staffio nad oedd wedi ei defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Llenwi swyddi gwag yn ystod yr ailstrwythuro |
| | 33,622.20 | Cyllideb graidd, cyllideb staffio nad oedd wedi ei defnyddio ac arian wrth gefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Llenwi swyddi gwag yn ystod yr ailstrwythuro |
| | 27,974.85 | Arian Wrth Gefn ar gyfer Trothwy gofal | Darparu gwasanaeth hyd oni fyddai'r swyddi gwag yn cael eu llenwi |
| | **793,524.28** | | |

| | £ | Ariannwyd O | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | **20,862.13** | Cyllideb Graidd | Salwch a Swydd Wag |
| **Adnoddau** | 4,615.00 | Cyllideb Staffio | Salwch Staff |
| | 53,202.35 | Cyllideb Graidd | Prosiect Northgate |
| | 2,080.00 | Cyllideb Graidd Benodol | Mae’r angen am staff asiantaeth wedi dod i ben oherwydd bod swyddi Rheolaeth Refeniw a Goruchwiliwr wedi eu llenwi yn dilyn ail-strwythuro o fewn yr Adain Refeniw a Budd-daliadau. |
| | 15,480.00 | Cyllideb Graidd Benodol | Daethpwyd â staff Asiantaeth i mewn i gwblhau ac ymateb i ymholiadau gan archwilydd allanol ynghylch Archwiliad Cymhorthdal 2015/16 ac i gynhyrchu adroddiad ar brosesau ac adennill Gordaliadau Budd-dal Tai. |
| | 29,063.00 | Cyllideb Staffio nad oedd wedi ei defnyddio | Llenwi swyddi gwag dan y strwythur newydd hyd oni fyddai proses recriwtio’n cael ei chynnal. |
| | 224.00 | Cyllideb Craidd Benodol | Gorffenwyd Staff Asiantaeth 07/07/2017 a hwn oedd y taliad olaf ar gyfrif oedd yn ddyledus. |
| | **104,664.35** | | |
| **Cyfanswm** | **1,185,443.10** | | |

| CRYNODEB O'R GWARIANT AR YMGYNGHORWYR AM BOB ADRAN - CH1 I CH4 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ch1** | **Ch2** | **Ch3** | **Ch4** | **Cyfanswm hyd yma** |
| Addysg Ganolog | 7,445 | 15,457 | 11,550 | -424,367 | -389,915 |
| Diwylliant | 4,720 | 1,519 | 2,602 | 11,677 | 20,519 |
| Economaidd ac Adfywio | 140,283 | 357,801 | 379,573 | 560,405 | 1,438,063 |
| Priffyrdd | 237 | 9,290 | 3,711 | 85,132 | 98,370 |
| Ysgolion | 2,100 | 5,575 | 10,200 | 6,275 | 24,150 |
| Gwastraff | 7,577 | 76,012 | 92,282 | 100,234 | 276,105 |
| CRT | 11,416 | 16,801 | 26,836 | 9,993 | 65,047 |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | 0 | 7,639 | 7,639 |
| Trawsnewid | 11,969 | 15,408 | 12,255 | 1,500 | 41,133 |
| Busnes y Cyngor | 15,881 | 10,963 | 14,165 | 17,223 | 58,232 |
| Adnoddau | 56,207 | 81,401 | 78,432 | 52,229 | 268,269 |
| | 52,936 | 6,647 | 114,131 | 57,686 | 231,401 |
| **Cyfanswm** | **310,775** | **596,875** | **745,737** | **485,626** | **2,139,014** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **21 MAI 2018** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB CRT, CHWARTER 4 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 4 2017/18;

**(ii)** Mae'r canlyniadau'n amodol ar y broses archwilio arferol ar ddiwedd y flwyddyn, felly rhai dros dro yw'r ffigyrau ar hyn o bryd.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 a oedd yn dangos gwarged wedi'i gynllunio o £5,530k;

**(ii)** Roedd y gyllideb ar gyfer 2017/18 yn cynnwys cyfraniad o £8,882k at y rhaglen gyfalaf ond dylid nodi nad oedd £1,326k o'r gwariant a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2016/17, wedi ei gwblhau a'i fod wedi llithro i raglen gyfalaf 2017/18. Roedd y llithriant hwn hefyd wedi cael ei ariannu o falansau'r CRT;

**(iii)** Rhoddodd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu ddiffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £4,677k a fyddai'n cael ei ariannu o'r CRT wrth gefn;

**(iv)** Mae'r cyfrif CRT wedi ei glustnodi i ddiben penodol ac ni ellir trosglwyddo'r arian wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer 2017/18 yn dangos tanwariant o £933k, amrywiad o 16.9%, yn bennaf oherwydd costau is gyllido cyfalaf. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad A;

**(ii)** Roedd y gwariant cyfalaf alldro £3,607k yn is na'r gyllideb gyfalaf, yn bennaf oherwydd yr oediadau nad oedd modd eu rhagweld yn y rhaglen datblygu tai cyngor, yn cynnwys cynllun gohiriedig o 25 uned newydd. Bydd unrhyw danwariant ar gael i'w wario yn 2018/19. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad B;

**(iii)** Roedd y diffyg a ragwelwyd (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) £4,541k yn llai na'r gyllideb ddiwygiedig, yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y taliadau cyllido cyfalaf ac effaith y gostyngiad a ragwelir mewn gwariant cyfalaf.

**5. Incwm**

**(i)** Mae incwm yn gyffredinol £94k (0.6%) yn well na'r gyllideb;

**(ii)** Roedd incwm o'r rhenti £167k yn is na'r gyllidb. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith y comisiynwyd nifer lai o eiddo yn ystod y flwyddyn (gweler isod), a'r golled o rent yn ystod yr ail-fodelu cynlluniedig o Llawr y Dref;

**(iii)** Roedd y gyllideb yn tybio y byddai'r gwaith o ail-fodelu'r stoc garejys wedi'i gwblhau. Fel y digwyddodd, roedd yr incwm £31k yn well na'r gyllideb, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y gwaith ailfodelu wedi bod yn arafach na'r disgwyl;

**(iv)** Roedd incwm arall £31k yn well na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd y llwyddiant a gafwyd i gael cymorth grant yn ystod y chwarter olaf;

**(v)** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg bellach yn is na'r llynedd, sef £462k. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r gwaith llwyddiannus a wnaed i dargedu dyledion hynach, gan leihau'r angen am ddarpariaeth. Roedd y gyllideb wreiddiol hefyd yn tybio y byddai Credyd Cynhwysol wedi cael ei rholio allan yn ystod y flwyddyn, ond mae hynny wedi cael ei ohirio tan fis Rhagfyr 2018.

**6. Gwariant nad yw'n wariant ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Roedd gwariant £64k yn uwch na'r gyllideb. Mae'r cynnydd mewn gwariant refeniw arall yn cynnwys £87k ar gyfer yr arolwg o'r stoc (a fyddai wedi cael ei drin fel gwariant cyfalaf yn y gorffennol), £98k ar gyfer peirianwyr ymgynghorol i archwilio eiddo posibl i'w prynu (gwariant a fyddai'n cael ei gyfalafu ar adeg cwblhau'r pryniant) a gwaith CCTV, £40k o waith a dalwyd amdano drwy grantiau a £14k ar gyfer biliau cyfleustodau mewn ardaloedd cymunedol. Mae'r tanwariant mewn categorïau eraill i'w briodoli'n bennaf i drosglwyddo staff ac mae cyfran o'r gost honno wedi cael ei gyllido o'r grantiau a dderbyniwyd.

**7. Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) yn dangos tanwariant o £51k, sy'n llawer gwell na'r canlyniadau a ddangoswyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hyn yn dangos fod y gweithdrefnau diwygiedig a gyflwynwyd i wella'r broses o godio archebion a'u hamseriad wedi cael rhyw effaith. Fodd bynnag, parheir i fonitro gwariant yn ofalus;

**(ii)** Roedd gorwariant ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall oherwydd y gwariant ychwanegol ar gyfer galwadau allan am offer tân a gosod system larwm tân newydd yn nepo Gaerwen.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n ffurfio rhan o'r broses gyfrifo diwedd blwyddyn. Mae taliadau cyllido cyfalaf £969k yn is na'r gyllideb, sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf is sy'n gostwng cyfran y CRT o gostau llog cyffredinol y Cyngor. Yn dilyn adolygiad o'r Ad-daliadau Canolog i'r CRT, nodwyd bod modd cyfiawnhau taliad o £760k, sydd £83k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Chwefror 2017 yn dod i gyfanswm o £11,547k, a oedd i'w ariannu gan y Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr £2,665k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £8,882k. Dygwyd ymlaen y gwariant cyfalaf o £1,326k a gynlluniwyd fel llithriant o 2016/17 gan olygu bod y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig yn £12,873k. Roedd y gwariant alldro yn £9,291k, a oedd £3,581k yn is na'r gyllideb. Roedd y tanwariant mwyaf sylweddol yn ymwneud â phrynu eiddo. Prynwyd cyfanswm o 10 yn hytrach na'r 30 a ragwelwyd gan arwain at danwariant o £3,029k. Ceir manylion pellach yn yr adroddiad ar wariant cyfalaf yn o fuan.

**10. Balans CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol y CRT wrth gefn yn £7,544k. Cynhyrchwyd gwarged o £6,463k ar y cyfrif refeniw ac roedd angen £6,600k o arian wrth gefn er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. Y balans canlyniadol ar 31 Mawrth 2018 oedd £7,407k.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| | **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F -** | **Atodiadau:** |
|---|---|
| | Atodiad A – Gwariant Refeniw a rhagolygon i ddiwedd Chwarter 3.<br>Atodiad B – Gwariant Cyfalaf a rhagolygon i ddiwedd Chwarter 3. |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| | • Cyllideb CRT 2017/18 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017).<br>• Cynllun Busnes 30 blynedd CRT 2017/47 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ar 20 Mawrth 2017). |

**ATODIAD A**

## CYFRIF CRT 2017/18

| | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro 2017/18 | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | |
| **Incwm** | | | |
| Anheddau | -16,052,000 | -15,885,041 | 166,959 |
| Garejys | -185,000 | -216,061 | -31,061 |
| Taliadau Gwasanaeth | -97,000 | -97,181 | -181 |
| Arall | -291,000 | -321,853 | -30,853 |
| Darpariaeth Dyledion drwg | 147,000 | -52,136 | -199,136 |
| **CYFANSWM INCWM** | **-16,478,000** | **-16,572,272** | **-94,272** |
| | | | |
| **Gwariant nad yw'n Wariant ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 96,710 | 81,582 | -15,128 |
| Gweinyddu Rhenti | 409,410 | 335,821 | -73,589 |
| Rheoli Stadau | 206,280 | 135,638 | -70,642 |
| Gwariant Refeniw Arall | 629,020 | 852,409 | 223,389 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n Wariant Atgyweirio a Cynnal a Chadw** | **1,341,420** | **1,405,450** | **64,030** |
| | | | |
| **Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | | | |
| Unded Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,268,040 | 3,216,777 | -51,263 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (nid HMU) | 863,890 | 830,155 | -33,735 |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall | 499,080 | 569,669 | 70,589 |
| **Cyfanswm Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | **4,631,010** | **4,616,601** | **-14,409** |
| | | | |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 3,677,000 | 2,708,300 | -968,700 |
| Ad-daliadau gan y Gwasanaethau Tai | 621,830 | 618,388 | -3,442 |
| Ad-daliadau gan y Gasanethau Canolog | 677,010 | 759,885 | 82,875 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,975,840** | **4,086,573** | **-889,267** |
| | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,948,270** | **10,108,624** | **-839,646** |
| | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **-5,529,730** | **-6,463,648** | **-933,918** |
| | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | |
| Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd 2017/18 | 11,546,600 | 9,291,323 | -3,581,277 |
| Llithriad o 2016/17 | 1,326,000 | | |
| | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | -2,665,000 | -2,691,101 | -26,101 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **10,207,600** | **6,600,222** | **-3,607,378** |

| | Cyllideb Flynyddol 2017/18 | Alldro 2017/18 | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YN Y CRT WRTH GEFN** | **4,677,760** | **136,574** | **-4,541,296** |
| **Balans agoriadol CRT** | -7,544,017 | -7,544,017 | |
| | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yn y CRT wrth gefn.** | 4,677,760 | 136,574 | |
| | | | |
| **Balans Cau CRT** | **-2,866,257** | **-7,407,443** | |
| | | | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Gwariant Alldro (£) | Amrywiant (£) |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | |
| Contract Gwres Canolog | 600,000 | 557,828 | -42,172 |
| Contract Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,635,000 | 4,820,819 | 185,819 |
| Cerbydau HMU 2017/18 | 144,000 | 157,607 | 13,607 |
| Gwaith Amgylcheddol | 502,580 | 32,752 | -469,828 |
| Ailfodelu Stoc Presennol | 693,120 | 697,361 | 4,241 |
| Caffaeliad Eiddo sydd eisoes yn Bodoli | 4,800,000 | 1,771,219 | -3,028,781 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 344,433 | -5,567 |
| Risg Tân | 167,620 | 53,791 | -113,829 |
| WHQS | 870,280 | 707,457 | -162,823 |
| Adeiladau | 110,000 | 148,056 | 38,056 |
| **Cyfanswm CRT Tai** | **12,872,600** | **9,291,323** | **-3,581,277** |

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni Golf Course and Driving Range***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14, of Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF / THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:-<br><br>Bydd y cyhoedd â diddordeb i weld sut y mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli'r cyfleuster hamdden hwn a'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer yr ardal yn y dyfodol er mwyn:<br><br>• Adolygu atebolrwydd a thryloywder<br>• Herio penderfyniadau a wneir<br>• Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau am y safle<br>• Effaith ehangach yr opsiynau trawsnewid ar y gymuned a'r economi leol<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in how the Council proposes to manage this leisure facility and what future plans it has for this area in order to:<br><br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding the site<br>• The wider impact of transformation options on local community and economy.</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Gallai datgelu gael effaith ar fuddiannau masnachol partner datblygu neu'r sawl sy'n prynu'r eiddo.<br><br>Gallai datgelu gael effaith andwyol ar drafodaethau'r Cyngor gyda'r tenant cyfredol.<br><br>Nid oes unrhyw gynlluniau swyddogol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y safle ac o'r herwydd, nid yw gwybodaeth ynghylch cynlluniau o'r fath ar gael.<br><br>Gallai rhyddhau gohebiaeth fewnol beryglu unrhyw gynlluniau y gall y Cyngor fod yn dymuno eu datblygu a gwerth posibl y safle mewn perthynas ag unrhyw gynigion yn y dyfodol, gan effeithio felly ar fuddiannau masnachol y safle.<br><br>Nid oes unrhyw ymgynghori cyhoeddus wedi digwydd mewn perthynas â'r safle.<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could impact on the commercial interests of a development partner or purchaser of the facility.<br><br>Disclosure may prejudice the Council's negotiation position with the current tenant.<br><br>No definitive development plans have been finalised for the site and so information regarding any such plans is not available.<br><br>The release of internal correspondence could jeopardise any plans which the Council may wish to develop and the potential value of the site in relation to any future proposals, thus</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | affecting the commercial interests in the site.<br><br>No public consultation has taken place to date regarding the site. |

Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank